MYNEDIAD TEG DRWY GYNLLUNIO

Canllawiau i gyrff dyfarnu ar gynllunio cymwysterau cynhwysol o ansawdd uchel

GORFFENNAF 2019

Mynediad Teg drwy Ddylunio

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut y gall cynllunio cymwysterau ac asesiadau'n dda roi'r cyfle tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn y mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae'n cynnwys enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori cynllunio da. Bwriedir i'r argymhellion yn y ddogfen hon gefnogi ac ategu arferion gorau cyrff dyfarnu wrth gynllunio cymwysterau ac asesiadau, a rhoi canllawiau ar gydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

Efallai y bydd y ddogfen hon o ddiddordeb i gyrff dyfarnu; grwpiau anabledd; arholwyr ac aseswyr; canolfannau sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer arholiadau ac eraill sydd â diddordeb mewn cymwysterau cynhwysol.

Nid yw hon yn ddogfen reoleiddio. Anogir cyrff dyfarnu i ddefnyddio'r adnodd hwn i gefnogi eu gwaith o sicrhau bod cymwysterau yn cael eu cynllunio i fod mor hygyrch â phosibl.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r canllawiau hyn at y rheoleiddiwr cymwysterau perthnasol. Mae'r manylion yn Atodiad 9.

Dogfennau perthnasol

Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru
Amodau Cydnabod Cyffredinol CCEA Regulation
Access Arrangements and Reasonable Adjustments (Cyd-bwyllgor Cymwysterau, caiff ei ddiweddaru'n flynyddol, ar gael o wefan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn www.jcq.org.uk
Guide for FAB Members – The Application of Reasonable Adjustments and Special Consideration in Vocational Qualifications (Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, 2012), ar gael i aelodau'n unig yn www.awarding.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4

2. Mynediad teg 6

3. Sail gyfreithiol ar gyfer sicrhau mynediad teg 8

Deddf Cydraddoldeb 2010 8

Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon 8

Addasiadau rhesymol a dysgwyr ag anableddau 9

Cyfraith cydraddoldeb a'r Amodau Cydnabod 10

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Cymru) 12

4. Cynllunio cymwysterau 13

Cynllunio manylebau 15

5. Cynllunio asesiadau 18

Amrywiaeth 20

Defnyddio iaith 22

Iaith hygyrch 22

Geiriau gorchymyn 23

Addasu iaith 23

Asesiadau ysgrifenedig 25

Darllenadwyedd 26

Strwythur brawddegau 26

Ieithwedd 28

Geirfa 32

Eglurdeb 35

Diagramau 36

Llyfrynnau atebion 37

Eitemau aml-ddewis 43

Asesiadau mewnol 44

Cynllunio tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol 46

Casglu tystiolaeth dros amser 47

Asesiadau ymarferol, siarad a gwrando 48

Cynllunio asesiadau ymarferol, siarad a gwrando 49

Deunydd ysgogi a ffynonellau 51
Cynlluniau marcio 54
Adolygu ar ôl asesiadau 56
6. Technoleg 58
Ffynonellau cymorth arbenigol 61
7. Rhestr wirio 64
Atodiad 1: Taflen wirio enghreifftiol 66
Atodiad 2: Taflen gynhwysiant enghreifftiol 70
Astudiaethau'r cyfryngau 70
Mae'r amcanion asesu yn asesu galluoedd canlynol y dysgwyr 70
Grwpiau y mae rhan o'r asesiad yn peri rhwystr iddynt 71
Cyfiawnhad 71
Lliniaru/cyngor 71
Atodiad 3: Dysgwyr y mae angen trefniadau mynediad arnynt 73
Enghreifftiau lle gallai fod angen trefniadau mynediad ar ddysgwyr 73
Atodiad 4: Deddf Cydraddoldeb 2010 ac addasiadau rhesymol 75
Addasiadau rhesymol a dysgwyr ag anableddau 75
Gwahaniaethu 76
Addasiadau rhesymol 77
Atodiad 5: Rhestr Termau 78
Atodiad 6: Geiriau gorchymyn 83
Atodiad 7: Hyrwyddo arfer da 85
Ystyriaethau ar gyfer cynllunio cymwysterau ac asesiadau cyn dewis cyfrwng asesu 85
Atodiad 8: Cyfeiriadau a llyfryddiaeth 87
Atodiad 9: Manylion cyswllt rheoleiddwyr 89
Cymru 89
Gogledd Iwerddon 89
Ar gyfer cymwysterau yn Lloegr 89
Ar gyfer cymwysterau yn yr Alban 90

Cydnabyddiaethau.....91

1. Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut y gellir cynllunio cymwysterau i roi’r cyfle tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn y mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Gall ystyried mynediad teg yn gynnar yn y broses o gynllunio cymhwyster neu asesiad helpu i leihau'r angen i wneud addasiadau neu ddiwygiadau yn ddiweddarach.

Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu ystyried anghenion pob dysgwr wrth ddatblygu cymwysterau. Dylid gwneud pob ymdrech i alluogi pob dysgwr i gymryd rhan yn yr asesiad cyfan, heb effeithio ar uniondeb y cymhwyster. Gall rhoi ystyriaeth i gynllunio cynhwysol o ddechrau'r broses o gynllunio cymhwyster leihau'r angen i wneud trefniadau mynediad.

Os bydd unrhyw ran o gymhwyster yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr ag anableddau, neu grwpiau eraill, mae angen i'r datblygwr (sef y corff dyfarnu fel arfer) ystyried a oes modd cyfiawnhau'r rhan honno neu a fyddai modd bodloni'r diben hwnnw mewn ffordd arall. Os yw'r rhan honno o'r cymhwyster yn hanfodol, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu bennu natur y rhwystr a achosir ganddi, cyfiawnhau'r rheswm dros ei chynnwys a rhoi mwy o fanylion am ffyrdd o liniaru ei heffaith.

Canllawiau cynghorol yw'r rhain. Bwriedir iddynt gefnogi cydymffurfiaeth ag Amodau Cydnabod rheoleiddiol a deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol. Er nad ydym yn creu gofynion rheoleiddio, rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod asesiadau'n hygyrch. Gellir addasu'r canllawiau hyn ar gyfer cymwysterau penodol.

Bwriedir i’r argymhellion yn y canllawiau hyn gefnogi ac ategu arferion gorau cyrff dyfarnu wrth gynllunio cymwysterau. Mae'r canllawiau yn debygol o fod fwyaf effeithiol wrth gael eu hintegreiddio mewn rhaglen hyfforddi a datblygu ehangach.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys enghreifftiau a ddewiswyd i amlygu egwyddorion cyffredinol.

Mae'r rhestr wirio yn Atodiad 1 yn tynnu'r prif egwyddorion at ei gilydd er mwyn helpu cyrff dyfarnu wrth iddynt ddatblygu ffyrdd o werthuso manylebau, deunyddiau asesu a chynlluniau marcio.

Nid yw'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar drefniadau mynediad nac addasiadau rhesymol. Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn cyhoeddi amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n cynghori ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol.

2. Mynediad teg

Mae Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation wedi pennu cyfres o Amodau Cydnabod y mae'n rhaid i'r cyrff dyfarnu a reoleiddir ganddynt gydymffurfio â nhw.

Mae'r amodau hyn yn ymdrin â llawer o agweddau ar weithgareddau cyrff dyfarnu. Mae'r amodau canlynol yn arbennig o berthnasol i fynediad i gymwysterau.

- D1 Addasrwydd cymwysterau at eu diben (gan gynnwys eu bod yn lleihau tuedd cymaint â phosibl)
- D2 Hygyrchedd cymwysterau
- G1 Gosod yr asesiad
- G3 Defnyddio deunyddiau iaith ac ysgogi
- G6 Trefniadau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol.

Mae Amod Cydnabod D1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gynllunio cymwysterau sy'n addas at y diben, gan gynnwys lleihau tuedd cymaint â phosibl. Lleihau tuedd yw:

> *'...sicrhau na fydd trefniadau asesu yn arwain at ddeilliannau afresymol o andwyol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin. Mae lleihau tuedd yn ymwneud â sicrhau tegwch i bob dysgwr ac mae hefyd yn ymwneud i raddau helaeth â dyletswyddau cydraddoldeb statudol'*.

Mae Amod G3 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ddefnyddio iaith briodol mewn asesiadau a deunyddiau ysgogi. Rhaid i unrhyw addasiadau rhesymol beidio â rhagfarnu'r asesiad(au) rhag bod yn ddilys nac yn addas at y diben.

Mae angen i fynediad teg fod 'wedi'i gynnwys, nid wedi'i ychwanegu', yn rhagweithiol, nid yn ôl-weithredol. Rhaid i gyrff dyfarnu adolygu eu trefniadau, eu polisïau a'u dogfennau canllaw eu hunain yn rheolaidd er mwyn ystyried sut y mae'r sefydliad yn gwneud y canlynol:

- bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a, lle y bo'n berthnasol, cyfraith cydraddoldeb Gogledd Iwerddon, wrth ddatblygu cymwysterau a'u rhoi ar waith
- sicrhau bod eu cymwysterau a'u hasesiadau'n hygyrch
- sicrhau cyfle cyfartal i ddysgwyr gael mynediad i asesiadau ar bob ffurf

- sicrhau tegwch wrth gymhwyso trefniadau mynediad
- gweithio gyda'u canolfannau i sicrhau eu bod nhw hefyd yn cyflawni eu dyletswyddau
- Gallai adolygiad hefyd olygu bod sefydliad yn ystyried ei drefniadau o ran y canlynol
- gweithdrefnau ar gyfer cynllunio cymwysterau ac asesiadau
- arferion gweithio
- rhaglenni datblygu staff
- argraffu a threfniadau cyhoeddi eraill
- arddull tŷ, gan gynnwys canllawiau iaith mewn manylebau, megis geiriau gorchymyn a'u dehongliad, a'r defnydd o iaith sy'n benodol i'r pwnc, a phwysigrwydd hynny.

Dylid ystyried rhwystrau posibl yn ystod camau cynllunio cymwysterau ac asesiadau, a thrwy asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Gweler 'Atodiad 1: Taflen wirio enghreifftiol' pwyntiau 6 a 7.

3. Sail gyfreithiol ar gyfer sicrhau mynediad teg

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r sail gyfreithiol ar gyfer mynediad teg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â gwahaniaethu o ran 'nodweddion gwarchodedig'. Y nodweddion gwarchodedig hyn (mewn perthynas â darpariaeth addysgol) yw:

- oedran (ceir rhai eithriadau mewn perthynas ag addysg)
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd a chred (ceir rhai eithriadau ym maes addysg lle ceir gwahanu dilys)
- rhyw (ceir rhai eithriadau ym maes addysg lle ceir gwahanu dilys)
- cyfeiriadedd rhywiol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff dyfarnu i beidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolion wrth ddarparu cymwysterau o ran y nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn y Ddeddf. Mae'n bwysig bod cyrff dyfarnu yn cynllunio'u cymwysterau a'u papurau arholi i fod yn gynhwysol ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig hyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn dysgwr. Mae Atodiad 4 yn cynnwys deunyddiau ychwanegol gan gynnwys esboniad o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Noder: Mae nodweddion gwarchodedig priodas a phartneriaeth sifil wedi'i eithrio mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol o dan Adran 96.

Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon

Mae deddfwriaeth ar wahân ar waith yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r rheoleiddiwr ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r cyrff dyfarnu sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon yn ymrwymedig i gadw at yr un egwyddorion a amlinellir uchod.

Mae'r darpariaethau sy'n golygu bod gwahaniaethu yn y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau cyffredinol gan gyrff dyfarnu yn anghyfreithlon wedi'u nodi yn Rhan 3, Pennod 3, o Orchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 (SENDO).

Mae Adran 75 o ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 hefyd yn gosod dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon o ran hyrwyddo cydraddoldeb rhwng personau ag anableddau a phersonau heb anableddau.

Mae Adran 53 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at gyrff dyfarnu. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cymwysterau beidio ag erlid person, gwahaniaethu yn ei erbyn nac aflonyddu arno mewn perthynas â rhoi cymhwyster (neu ei dynnu yn ôl). Mae Adran 54 o'r Ddeddf yn rhoi dehongliad ychwanegol.

Addasiadau rhesymol a dysgwyr ag anableddau

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu wneud addasiadau rhesymol ac osgoi trin dysgwyr ag anableddau yn anffafriol. Bydd y ddyletswydd i gyrff dyfarnu wneud addasiad rhesymol yn gymwys pan fyddai trefniant asesu yn rhoi person anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â rhywun nad yw'n anabl.

Mae Adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel '...nam corfforol neu feddyliol... [sy'n cael] effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar... allu [rhywun] i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'. Mae astudio a gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg wedi'u cynnwys yn y diffiniad o weithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae Adran 53 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â'r ddyletswydd a roddir ar gyrff dyfarnu mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol. Caiff cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol gymhwyso safonau cymhwysedd i berson anabl. Mae Adran 54 o'r Ddeddf yn rhoi dehongliad ychwanegol.

Caiff safon cymhwysedd ei diffinio fel safon academaidd, feddygol neu safon arall a gymhwysir at ddibenion penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio. Nid yw cymhwyso safon cymhwysedd i berson anabl yn wahaniaethu ar sail anabledd oni bai ei fod yn wahaniaethu yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (yn ymwneud â gwahaniaethu anuniongyrchol).

Mae Adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â'r ddyletswydd a roddir ar gyrff dyfarnu mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr bennu lle nad yw cyrff dyfarnu o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol. Mewn rhai achosion, ni fydd yn rhesymol i addasiadau gael eu gwneud i amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hynny yn debygol o danseilio effeithiolrwydd y cymhwyster wrth roi arwydd o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr dysgwyr. Mae gan y Rheoleiddiwr, o dan adran 96, y pŵer i bennu lle na chaniateir gwneud addasiadau rhesymol.

Cyfraith cydraddoldeb[1] a'r Amodau Cydnabod

Rhaid i gyrff dyfarnu a gydnabyddir gan y rheoleiddwyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gydymffurfio â'r Amodau Cydnabod[2]. Mae'r Amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- cynllunio cymwysterau sy'n rhoi arwydd dibynadwy o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr
- lle y bo'n bosibl, osgoi creu cymhwyster â nodweddion a allai ei wneud yn gymhwyster anoddach i ddysgwr ei gyflawni oherwydd bod ganddo nodwedd warchodedig, a monitro a oes gan unrhyw gymwysterau nodweddion sy'n cael yr effaith hon ac, os felly, wneud addasiadau rhesymol.

Mae adran 96 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (i Gymru)[2] yn nodi'r canlynol:

> '42 Equality of opportunity
> (1) In exercising its functions the Council [*] must have due regard to the need to promote equality of opportunity-
>
> (a) between persons of different racial groups,
>
> (b) between men and women, and
>
> (c) between persons who are disabled and persons who are not.'

[1]Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth bresennol yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â Chyfraith Cydraddoldeb.

[2]Mae gan Gymru a Gogledd Iwerddon Amodau ar wahân; fodd bynnag, mae'r ddwy set o Amodau yr un peth, at ei gilydd, gydag ychydig o fân wahaniaethau.

* Mae'r rôl hon wedi'i dirprwyo gan Weinidogion Cymru i'r Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

Cyfeirir yn benodol at Gyfraith Cydraddoldeb mewn pum lle allweddol yn yr Amodau.

- A1.2 - Addasrwydd i barhau i gael ei gydnabod.
- B1.3 (e) - Rôl y swyddog cyfrifol.
- C2.3 (h) - Trefniadau gyda chanolfannau.
- D2.1 - Hygyrchedd cymwysterau.
- G6.2 – Trefniadau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol.

Mae angen i gyrff dyfarnu sicrhau bod eu systemau a'u gweithdrefnau ym mhob un o'r meysydd hyn yn unol â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyfraith cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon.

Ceir Amodau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb er na chyfeirir yn benodol at Gyfraith Cydraddoldeb.

- G2: Iaith yr asesiad.
- G3: Defnyddio deunyddiau iaith ac ysgogi.
- I1: Proses apelio.
- I2: Cydymffurfio â phroses apelio a chwyno'r rheoleiddwyr.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau na wahaniaethir yn erbyn dysgwyr. Gallai canolfannau hefyd fod yn atebol yn uniongyrchol am wahaniaethu ar sail anabledd. Mae Amod C2.3 (h) yn mynnu bod cyrff dyfarnu yn gwneud trefniadau â'u canolfannau i sicrhau bod canolfannau hefyd yn cydymffurfio â Chyfraith Cydraddoldeb wrth ymgymryd ag unrhyw ran o'r gwaith o gyflwyno cymhwyster ar ran y corff dyfarnu.

Yn y canllawiau hyn, yn ogystal â'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gall yr ymadroddion 'pob dysgwr' a 'phob grŵp' gynnwys dysgwyr:

- ar bob lefel o ddysgu a chyrhaeddiad
- o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol
- o wahanol grwpiau ethnig a diwylliannol
- ag anableddau corfforol a synhwyraidd
- ag anawsterau gydag agweddau ar gyfathrebu, iaith a llythrennedd
- ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol

- â salwch hirdymor.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Cymru)

Cyflwynodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 nifer o newidiadau i ddarpariaeth addysgol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r term Angen Dysgu Ychwanegol i ddisodli Angen Addysgol Arbennig, ac mae hefyd yn creu dyletswyddau statudol i awdurdodau lleol ac ysgolion lunio a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) i ddysgwyr 0-25 oed, i'w rhoi ar waith ym mis Medi 2020.

Bydd CDUau yn cyfeirio at anghenion y dysgwr a'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Yn unol â Chod ADY drafft Llywodraeth Cymru, dylai'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol gyfeirio at drefniadau mynediad, er y bydd hyn yn rhan o'r cynnwys nad yw'n orfodol.

> Os yw plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn debygol o ddechrau'n fuan ar gwrs sy'n arwain at asesiadau a chymwysterau, neu os yw eisoes yn dilyn cwrs o'r fath, dylid ystyried pa drefniadau mynediad a all fod eu hangen yn sgil y DDdY neu'r ADY wrth fynd ati i osod yr amcanion a phennu'r ddarpariaeth. Dylid gwneud cais (i'r corff dyfarnu) am y trefniadau hyn cyn asesiad neu arholiad, ond ar ddechrau cwrs yn ddelfrydol er mwyn iddynt fod yn eu lle drwy gydol y cwrs.
>
> Llywodraeth Cymru, 2018

4. Cynllunio cymwysterau

Mae cyrff dyfarnu yn sicrhau mynediad teg at asesiadau drwy gydnabod anghenion amrywiol dysgwyr yn ystod y broses o gynllunio'r cymwysterau a'r asesiadau.

Dylai cyrff dyfarnu ystyried y pwyntiau canlynol wrth gynllunio cymwysterau. Maent yn gyson â'r Amodau Cydnabod ond yn canolbwyntio ar y lefel nesaf o waith sicrhau ansawdd.

- Ystyried anghenion pob dysgwr ar bob cam o'r broses o ddatblygu cymwysterau, tasgau ac asesiadau er mwyn helpu i leihau cymaint â phosibl ar yr angen i wneud addasiadau rhesymol yn ddiweddarach
- Datblygu manylebau clir, asesiadau, deunyddiau ffynhonnell a chynlluniau marcio wedi'u cynllunio'n dda, er mwyn helpu i osgoi tuedd a rhwystrau i gydnabod cyflawniad
- Sicrhau bod manylebau'n drefnus ac yn glir i bob defnyddiwr
- Cysylltu meini prawf asesu yn rhesymegol â'r cynnwys a bennir
- Cynllunio asesiadau sy'n defnyddio cyfuniad amrywiol ond cydlynol o dechnegau, lle y bo'n briodol. Os defnyddir ystod gul o asesiadau, cyfyngir ar y nifer o fathau o wahanol sgiliau a asesir, a gall hynny gyfyngu ar fynediad
- Sicrhau nad oes unrhyw amwysedd na disgwyliadau cudd yn y meini prawf asesu, y deilliannau dysgu neu'r cynlluniau asesu
- Bod yn ofalus i osgoi nodweddion mewn cymwysterau a allai roi grŵp o ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd benodol o dan anfantais, neu a allai creu rhwystrau i grwpiau penodol. Gan ddibynnu ar ddiben y cymhwyster, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried sut y gallai'r sgiliau a gaiff eu profi gan gymhwyster gael eu defnyddio yn y gweithle neu mewn dysgu dilynol
- Gan weithio o fewn meini prawf neu egwyddorion cymwysterau / pynciau a gyhoeddir, cadw mynediad teg mewn cof ar gyfer y cynnwys a'r cynllun asesu

- Cael gwared ar unrhyw anfantais na ellir ei gyfiawnhau a chadw cofnod o unrhyw anfantais y mae o'r farn y gellir ei chyfiawnhau, ynghyd â'r rhesymau. Lle y bo meini prawf neu safonau'n caniatáu, gallai rhai rhannau o'r asesiad fod yn ddewisol neu gael eu disodli.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellid defnyddio dulliau amgen.

- Gallai cymhwyster cyfryngau ei gwneud yn ofynnol i astudio ffilm neu deledu. Gallai uned arall ar sain gynnig dewis gwerth chweil i lawer o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr â nam ar eu golwg
- Gallai clip teledu wedi'i is-deitlo neu ag iaith arwyddion fod yn ddewis amgen addas i glip radio i ddysgwyr â nam ar eu clyw
- Byddai defnyddio DVD neu lais byw yn hytrach na thâp sain ar gyfer profion gwrando ieithoedd tramor modern yn galluogi dysgwyr i ddarllen gwefusau a sylwi ar gliwiau o ystumiau corff a'r dull cyflwyno

- Yn hanes celf, nid yw'r gallu i ddadansoddi cyfansoddiad, strwythur a ffurf yn sgil weledol yn unig. Byddai dysgwr â nam ar ei olwg yn gallu dangos ei allu i ddadansoddi gwaith celf mewn amrywiaeth o ffyrdd, e.e. drwy ddadansoddiad o ddisgrifiadau ysgrifenedig neu sain, neu drwy brofiadau amgylcheddol a chyffyrddol.

Cynllunio manylebau

Mae'r pwyntiau canlynol yn ymdrin ag agweddau ar gynllunio manylebau cymwysterau.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod y teitlau a ddefnyddir ar gyfer cymhwyster a, lle y bo'n briodol, bob un o'i unedau, ddynodi deilliannau dysgu sy'n berthnasol i'r pwnc hwnnw. Mae Amod Cydnabod E2.2 yn nodi: 'Rhaid i gorff dyfarnu... sicrhau bod y teitl ar y gronfa ddata cymwysterau yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gaiff eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster'. Gall fod o gymorth i ysgrifennu cynnwys y cymhwyster neu'r uned gyntaf ac yna ysgrifennu'r teitl. Os bydd cymhwyster neu uned â thuedd o unrhyw fath, dylid addasu'r cynnwys ac yna gadarnhau neu ailysgrifennu'r teitl. Er enghraifft, gall stereoteipio ar sail rhyw barhau mewn rhai meysydd o'r cwricwlwm megis peirianneg, gweithgynhyrchu, iechyd a gofal cymdeithasol, ffiseg neu dechnoleg tecstilau.

Gall tybiaethau am y profiadau a gynigir gan bwnc gael eu gwrthbwyso i ryw raddau drwy greu cydbwysedd gofalus a thrwy gyflwyno teitlau ac amrywiaeth y modiwlau/unedau.

Gall yr amrywiaeth a'r cydbwysedd o ddewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr o fewn cymhwyster helpu i leihau tuedd neu stereoteipio cymaint â phosibl. Er enghraifft, mewn cymhwyster technoleg tecstilau, gallai uned ar decstilau diwydiannol ategu dewis dylunio ffabrig.

Dylai cyrff dyfarnu gyfyngu ar y wybodaeth a phrofiad blaenorol a argymhellir gan nodi'r hanfodion yn unig, yn arbennig lle gallai gofyniad o'r fath gyflwyno rhwystr i'r rheini â nodweddion gwarchodedig penodol. Gall gwybodaeth am bwnc gael ei meithrin y tu allan i gymhwyster drwy ddulliau eraill neu ddod o bynciau cysylltiedig. Er enghraifft, gall tectoneg platiau a symudiad cyfandirol gael eu hastudio fel rhan o gyrsiau daearyddiaeth, daeareg neu wyddoniaeth.

Dylai cyrff dyfarnu osgoi cyflwyno rhwystrau anfwriadol i'r rheini a all ddefnyddio technoleg gynorthwyol neu drefniadau mynediad i ddangos sgiliau. Er enghraifft, gallai manylebau sydd wedi'u llunio i ddweud 'tynnwch lun o ddiagramau gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig' a 'brasluniwch drawsfudiadau ac adlewyrchiadau swyddogaeth benodol mewn mathemateg' gael eu dehongli fel gofyniad i'r dysgwyr dynnu lluniau a braslunio'n annibynnol. Mae'n bosibl y bydd rhai ymgeiswyr yn cyfarwyddo cynorthwyydd neu'n defnyddio technoleg.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod y cynnwys a ddisgrifir fel gorfodol yn y pwnc yn hanfodol er mwyn ennill y cymhwyster, yn arbennig lle gallai gofyniad o'r fath gyflwyno rhwystr i'r rheini â nodweddion gwarchodedig penodol.

Dylai cyrff dyfarnu bennu cynnwys mewn termau sy'n gwneud y fanyleb yn berthnasol ac yn ddealladwy i amrywiaeth eang o grwpiau. Gall fod yn ddefnyddiol llunio rhestr wirio o'r cynnwys a all greu problemau a fyddai'n berthnasol i amrywiaeth eang o grwpiau, e.e. cynnwys sy'n berthnasol i ranbarth neu'r DU, fel crofftau'r Alban, mewn cymhwyster nad yw'n un daearyddol.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod unrhyw ddeunydd dewisol naill ai'n hygyrch i bob dysgwr neu fod opsiynau ar gael sydd yr un mor heriol sy'n ehangu mynediad, ac ar yr un pryd yn cynnal uniondeb y cymhwyster.

Dylai cyrff dyfarnu dreialu gweithgareddau: gall cynnal profion neu dreialon o ryw fath ar y cymhwyster byw ymlaen llaw, gan gynnwys gyda'r rheini sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol, roi gwybodaeth am gymharedd.
Gallai fod yn briodol i fonitro neu ail-werthuso cynnwys ac asesiadau yn ystod oes y cymhwyster. Gall data fod yn ddefnyddiol er mwyn edrych ar sut mae lefel yr her yn cymharu; gall gwybodaeth go iawn am gymharedd a lefel yr her gael ei mesur pan fydd tystiolaeth ar gael. Er enghraifft:

- efallai y bydd cymhwyster dylunio a thechnoleg yn gofyn i ddysgwyr ddylunio a gwneud cynhyrchion. Mae'n bosibl y bydd opsiwn CADCAM (Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur/Gweithgynhyrchu gyda Chymorth Cyfrifiadur) a fydd yn rhoi mynediad i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio offer, cyfarpar a deunyddiau
- ym maes drama a'r celfyddydau perfformio, gall rhai dysgwyr fod wedi'u cyfyngu o ran y sgiliau y gallant eu defnyddio i gyfathrebu drwy berfformiad. Fodd bynnag, gall dysgwyr fodloni'r amcan asesu drwy gyflawni rolau eraill sydd yr un mor heriol, e.e. coreograffwr neu gyfarwyddwr, er mwyn dangos sgiliau cynhyrchu
- mewn celf a dylunio, efallai y bydd dysgwyr â nam ar eu golwg yn dewis defnyddio amrywiaeth o gyfryngau amgen gan gynnwys 3-D neu gyfryngau cyffyrddol eraill.

Dylai cyrff dyfarnu ddatblygu meini prawf asesu (lle nad yw'r rhain wedi'u diffinio gan feini prawf neu egwyddorion y pwnc) a chynllun asesu sy'n canolbwyntio'n eglur ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol. Dylid tybio y bydd rhai ymgeiswyr yn defnyddio technoleg neu drefniadau mynediad wrth ymgymryd ag asesiad. Er enghraifft, gellid defnyddio rhestrau gwirio neu gridiau i fapio'r ffordd y caiff y cynnwys ei asesu ym mhob rhan o asesiad. Yn yr un modd, gellid

defnyddio gridiau i fapio'r ffordd y mae'r cymhwyster a'r trefniadau asesu cyffredinol yn ymateb i gyfraith a chanllawiau cydraddoldeb, er mwyn cydymffurfio ag amodau rheoleiddio, ac er mwyn dadansoddi hygyrchedd pob rhan o'r asesiad i ddysgwyr ag anableddau neu nodweddion gwarchodedig eraill. Gellid rhannu'r rhain â chanolfannau er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o rwystrau posibl i fynediad a lle y gellid ystyried trefniadau arbennig.

Dylai cyrff dyfarnu osgoi gorasesu drwy nodi deilliannau sy'n canolbwyntio'n glir ar y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y cwmpas a'r amrywiaeth ofynnol.

Dylai cyrff dyfarnu gadarnhau bod asesiadau, lle y bo'n briodol, yn caniatáu amrywiaeth o ddulliau ymateb. Lle na fyddai dull ymateb penodol yn hygyrch i rai dysgwyr, dylid cynnwys dulliau asesu amgen lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft:

- mae'n bosibl na fydd tasgau a gynllunnir i asesu sgiliau siarad a gwrando yn gallu pennu lefel siliau dysgwyr byddar, megis mewn agweddau ar ieithoedd tramor modern neu'r rhan glywedol o gerddoriaeth. Dylid ystyried cynnig dulliau ymateb amgen a fyddai'n caniatáu ar gyfer asesu'r dysgwyr hyn. Gallai myfyrwyr â nam ar eu clyw ddangos eu dirnadaeth drwy ddehongli sgôr gerddoriaeth yn hytrach na gwrando ar y gerddoriaeth
- mae manyleb hanes yn cynnwys asesiad mewnol o sgiliau ymchwil. Gofynnir i ddysgwyr wneud cyflwyniad llafar byr a gaiff ei asesu am ei eglurder a'i berthnasedd yn ogystal â thystiolaeth bod y sgiliau ymchwil gofynnol wedi'u defnyddio. Mae hyn hefyd yn asesu hyder dysgwyr wrth wneud cyflwyniadau, nad yw, efallai, yn un o ofynion manyleb y cymhwyster. Er bod galw cynyddol am sgiliau cyflwyno yn y byd sydd ohoni, dylai'r gofyniad i asesu'r sgiliau hynny fod yn amlwg yn y fanyleb. Gall gwneud cyflwyniadau greu rhwystrau i ddysgwyr sy'n nerfus neu'n swil, p'un a oes ganddynt broblemau mynediad neu beidio. Gan ddibynnu ar ofynion y fanyleb, gallai fideo neu gyflwyniad a baratowyd ymlaen llaw, cymorth iaith arwyddion neu ddefnydd o ddehonglydd fod yn ddulliau ymateb sydd yr un mor ddilys.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau, lle y caniateir amrywiaeth o ddulliau asesu, y cynigir cyfle cyfartal ac asesu trylwyr i bob dysgwr.

5. Cynllunio asesiadau

Mae pwyntiau cyffredin y dylid eu hystyried wrth gynllunio pob asesiad.

Dylai asesiadau gael eu cynllunio i sicrhau na cheir unrhyw rwystrau diangen, a dylai'r asesiadau eu hunain gael eu hadolygu'n barhaus. Gall cynnwys arbenigwyr mynediad a chyfartaledd ynghyd ag arbenigwyr pwnc ar gam cynnar yn ystod y broses ddatblygu leihau'r angen am addasiadau yn ddiweddarach.

Mae angen i gyrff dyfarnu gynnal safonau a dylent werthuso adborth gan grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid ar eu cymwysterau'n rheolaidd; gall eu hadborth helpu i gynnal a gwella safonau cynllunio asesiadau a hyrwyddo mynediad teg (Amodau Cydnabod D3).

Mae rhai agweddau ar y gwaith cynllunio nad ydynt yn agored i drafodaeth, fel safonau cymhwysedd a dull cymesur o gyflawni nod dilys. Dylai asesiadau hyrwyddo cyfle cyfartal ac, ar yr un pryd, cynnal uniondeb y cymhwyster. Dylent:

- fod yn rhydd rhag gwahaniaethau a stereoteipio ar sail rhywedd, ethnigrwydd, gwleidyddiaeth, diwylliant neu ffactorau eraill
- defnyddio cynnwys, adnoddau a deunyddiau asesu sy'n cydnabod cyflawniadau a chyfraniadau gwahanol grwpiau
- lle y bo'n briodol, darparu cydbwysedd o ran dulliau asesu a chaniatáu dulliau amgen.

Dylai iaith manylebau a deunyddiau asesu, a'r ffordd y cânt eu cyflwyno, gefnogi mynediad teg. Dylai'r iaith gludo gael ei chynllunio i fod, cyn belled â phosibl, yn hygyrch i amrywiaeth o ddysgwyr sydd ag anawsterau wrth ddefnyddio a phrosesu iaith. Gallai fersiynau digidol o bapurau arholiad gefnogi mynediad teg, wedi'u tagio'n briodol ar gyfer llywio a'r drefn ddarllen, er mwyn cefnogi mynediad annibynnol effeithiol.

Gall defnydd priodol o dechnolegau newydd, megis dulliau cyfathrebu amgen (lle nad yw hyn yn effeithio ar uniondeb y cymhwyster), helpu mwy o ddysgwyr i ddangos eu sgiliau a'u gwybodaeth hefyd.

Rhaid cadw'r ddysgl yn wastad a sicrhau nad yw gwella mynediad i rai dysgwyr yn creu rhwystrau i eraill, e.e. pan gaiff y gymhareb o ysgogiadau llafar i weledol ei haddasu. Yn yr un modd, ni ddylai gwella mynediad i rai dysgwyr roi mantais iddynt dros eraill.

Mae angen i randdeiliaid fod yn hyderus bod safonau'n cael eu cynnal a'u cymhwyso'n gyson. Rhaid i'r rheoleiddwyr sicrhau bod pob dysgwr yn cael y canlyniadau mae'n eu haeddu, a bod y cymwysterau a gaiff yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae meini prawf asesu mewn cymwysterau galwedigaethol yn aml yn cael eu seilio ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Argymhellir bod cyrff dyfarnu'n cadarnhau nad yw'r safonau eu hunain yn peri unrhyw rwystrau diangen. Pan gaiff rhwystr ei nodi, dylai cyrff dyfarnu gyfeirio'n ôl at y Cyngor Sgiliau Sector neu'r corff dan sylw sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw'r safonau galwedigaethol cenedlaethol yn achosi unrhyw rwystrau diangen i fynediad wrth eu defnyddio mewn cymwysterau. Yn y pen draw, rhaid i gyrff dyfarnu gydymffurfio â Chyfraith Cydraddoldeb.

Caiff manylebau ar gyfer cymwysterau cyffredinol eu paratoi gan gyrff dyfarnu a rhaid iddynt gael eu hachredu i'w defnyddio ym mhob gwlad gan y rheoleiddiwr perthnasol ar gyfer y wlad honno.

Argymhellir bod cyrff dyfarnu'n cadarnhau nad yw'r strategaeth asesu a'r methodolegau maent yn eu datblygu i fodloni'r fanyleb yn achosi unrhyw rwystrau diangen. Gall defnyddio adnoddau asesu effaith ar gydraddoldeb ar gam cynnar yn ystod y broses o gynllunio cymwysterau helpu i nodi a dileu neu liniaru problemau posibl.

Mae gweddill yr adran hon yn defnyddio'r penawdau canlynol i bwysleisio ystyriaethau penodol ar gyfer:

- Amrywiaeth
- Defnyddio iaith
- Asesiadau ysgrifenedig
- Darllenadwyedd
- Eglurdeb
- Eitemau aml-ddewis
- Asesiadau mewnol
- Cynllunio tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol
- Casglu tystiolaeth dros amser
- Asesiadau ymarferol, siarad a gwrando
- Deunydd ysgogi a ffynonellau
- Cynlluniau marcio
- Adolygu ar ôl asesiadau.

Amrywiaeth

Mae'r pwyntiau canlynol yn dangos sut y gellir gwella mynediad pan gaiff asesiadau ysgrifenedig eu cynllunio i gydnabod amrywiaeth lawn y boblogaeth o ddysgwyr.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod y bobl a gynrychiolir yn y deunyddiau asesu'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas. Dylid osgoi cyfeiriadau diwylliannol cul, er enghraifft:

- osgoi cyfeiriadau sy'n canolbwyntio ar y DU fel Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod San Padrig neu Ŵyl San Steffan
- efallai na fydd dysgwyr sy'n hanu o'r tu allan i'r DU neu o rai cefndiroedd diwylliannol yn gyfarwydd â thermau sy'n ymddangos yn gymharol gyfarwydd yn ffordd o fyw a diwylliant y DU, neu'n cael eu drysu ganddynt, er enghraifft cerddoriaeth 'indie', *XFactor*, Monty Python neu siopau punt
- osgoi ymadroddion llafar oni bai eu bod yn rhan o ddyfyniad neu ddetholiad o destun sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o'r asesiad.

Dylai cyrff dyfarnu osgoi cynrychioli grwpiau gwahanol mewn ffordd gul, negyddol neu ystrydebol. Er enghraifft, mewn cwestiwn ar wasanaeth i gwsmeriaid, gofynnwyd i ddysgwyr 'gynllunio rota ar gyfer wyth gweithiwr benywaidd rhan-amser, sy'n gweithio ar linell gymorth 24 awr'.; Gallai'r un cwestiwn fod wedi cael ei ailysgrifennu er mwyn osgoi stereoteipio ar sail rhywedd: 'cynllunio rota ar gyfer wyth gweithiwr rhan-amser, sy'n gweithio ar linell gymorth 24 awr'.

Dylai cyrff dyfarnu fabwysiadu ymagwedd gytbwys tuag at rolau, gweithgareddau a phryd a gwedd. Er enghraifft, mae'r frawddeg 'Mae'r meddyg lleol yn ffodus: mae e'n cadw ei statws cymdeithasol i raddau helaeth' yn amlwg yn annerbyniol, a gellir osgoi'r rhagfarn ar sail rhywedd drwy ddefnyddio'r lluosog neu strwythurau eraill, er enghraifft: 'Mae meddygon lleol yn ffodus. Maent yn cadw eu statws cymdeithasol i raddau helaeth'.

Rhaid i gyrff dyfarnu sicrhau bod pobl o bob diwylliant a chymdeithas a phobl ag anableddau o unrhyw fath yn cael eu cyflwyno'n gywir ac â pharch. Dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio cyd-destunau ar gyfer cwestiynau sy'n adlewyrchu profiad pob grŵp mewn ffordd gytbwys. Yn G3.2 o'r Amodau Cydnabod, nodir

'Mae deunyddiau iaith ac ysgogi yn briodol os ydynt:

(a) yn galluogi dysgwyr i ddangos eu lefel o gyrhaeddiad;
(b) yn gofyn am wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster;
(c) yn glir ac yn ddiamwys (oni bai bod amwysedd yn rhan o'r asesiad)
(d) yn annhebygol o beri tramgwydd diangen i ddysgwyr.'

Mae defnyddio cyd-destunau yn y 'byd go iawn' yn aml yn cynnig cysylltiadau defnyddiol i ddysgwyr. Fodd bynnag, dylid sicrhau na roddir gormod o bwyslais ar y cyd-destun. Os yw'r dysgwyr yn colli ffocws ar y pwnc, mae'n bosibl y byddant yn dibynnu ar wybodaeth gyffredinol yn hytrach na gwybodaeth am y pwnc i ateb y cwestiwn.

Mae canfyddiadau o'r 'byd go iawn' yn amrywio yn ôl oedrannau dysgwyr, eu profiadau, eu credoau a'u hamgylchiadau. Er enghraifft, gallai seilio cwestiwn ar ganeuon grŵp pop penodol, sioe radio, rhaglen deledu neu sioe ar-lein ei gwneud yn fwy diddorol i rai dysgwyr, ond gallai beri anawsterau i eraill.

Gall rhai darluniadau (gweledol neu lenyddol) beri tramgwydd i grwpiau penodol. Mae angen sensitifrwydd arbennig wrth ymdrin â delweddau o steil ddillad a chyfeiriadau at eitemau bwyd, chwaraeon ac anifeiliaid.

Mae'n bosibl na fydd darllenwyr gwan, gan gynnwys rhai darllenwyr byddar, yn gyfarwydd ag enwau o ddiwylliannau eraill, yn enwedig os bydd yr enw yn dod ar ddechrau'r frawddeg. Wrth ddefnyddio enwau, mae'n ddefnyddiol defnyddio enghreifftiau o bob diwylliant sy'n debygol o fod yn fwy cyfarwydd. Dylai'r cydbwysedd o enwau fod yn briodol.

Mewn meysydd sy'n sensitif yn wleidyddol, mae'n bwysig sicrhau y ceir cynrychiolaeth gytbwys o draddodiadau chwaraeon a cherddorol sy'n gysylltiedig â gwahanol grwpiau o bobl.

Gall arferion ac ymddygiadau sy'n dderbyniol i rai grwpiau beri tramgwydd i eraill. Er enghraifft, gallai 'ods' gamblo ymddangos fel petaent yn cynnig cyd-destun bywyd go iawn ar gyfer problemau mathemateg, ond gallai cyfeiriadau o'r fath fod yn ddi-chwaeth i ddysgwyr â chredoau penodol. Yn ogystal, gallai dysgwyr o ddiwylliannau penodol gael eu drysu gan derm ymddangosiadol cyfarwydd, fel y term Saesneg 'dice', y byddent efallai yn ei gysylltu â pharatoi bwyd ('*dice the vegetables*') yn hytrach na gamblo neu siawns.

Efallai na fydd cyfeiriadau llenyddol neu gyfeiriadau at ffilmiau yr un mor gyfarwydd i bobl o bob oedran a diwylliant. Hyd yn oed pan fydd cyfeiriad neu gymeriad wedi dod yn archdeip diwylliannol, ceir perygl o gamddeall. Er enghraifft, gallai cyfeirio at ateb 'Mickey Mouse' i broblem neu foment 'Spinal Tap' gael ei gamddehongli mewn sawl ffordd.

Gall rhai cyd-destunau beri gofid emosiynol i ddysgwyr sydd wedi cael profiadau cysylltiedig, megis salwch difrifol, profedigaeth, trais, camdriniaeth, tanau domestig neu ddamweiniau ffordd. Lle bo'r pwnc yn mynnu cyfeiriadau o'r fath, dylid cyfyngu ar y defnydd o iaith affeithiol.

Defnyddio iaith

Dylai iaith a chystrawen cwestiynau fynegi gofynion y cyfarwyddyd, y wybodaeth a'r cwestiwn yn gywir. Nod datblygu arholiadau ysgrifenedig neu gwestiynau asesu yw sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu hysgrifennu mewn iaith gludo hygyrch. Rhaid i iaith dechnegol a phenodol i'r pwnc gael ei haddysgu. Dylai cwestiwn lle mae'r iaith wedi'i haddasu ofyn am yr un sgiliau, gwybodaeth a chysyniadau sy'n ymwneud â'r pwnc â'r cwestiwn gwreiddiol, er mwyn galluogi'r dysgwr i fodloni'r un amcanion asesu.

Iaith hygyrch

Gall cysyniadau a chyfarwyddiadau cymhleth gael eu cyfleu mewn iaith hygyrch heb beryglu safonau. Felly, ni ddylid ystyried iaith a chystrawen hygyrch fel ffordd o 'wneud cwestiynau'n haws', ond yn hytrach, fel ffordd o fynegi'r gofynion yn gywir. Ni ddylai dysgwyr orfod dehongli iaith ddiangen o gymhleth er mwyn deall beth sy'n cael ei ofyn. Fodd bynnag, mae angen i'r dysgwyr wybod yr iaith dechnegol a phenodol i'r pwnc, ac ar y rhai sy'n addysgu'r pwnc y mae'r cyfrifoldeb i sicrhau bod y dysgwyr yn gallu deall y termau arbenigol hyn. Ymhlith yr agweddau ar iaith y dylai cyrff dyfarnu a'r rhai sy'n ysgrifennu arholiadau eu hystyried, mae'r canlynol:

- hyd a chymhlethdod brawddegau
- y gair mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar gyfer y termau nad ydynt yn rhai technegol (yr iaith gludo)
- e.e. ‘gwneud’ **nid** ‘cynhyrchu’, ‘teithio’ **nid** ‘tramwyo’, ‘eisiau’ **nid** ‘dymuno’
- osgoi berfau ymadroddol, e.e. 'cerdded i mewn’, ‘mynd ymaith'
- osgoi idiomau, e.e. ‘taro deuddeg’, ‘dal ati’, ‘pwyso a mesur’

- osgoi rhoi gwybodaeth a chwestiwn yn yr un cwestiwn, neu sawl rhan i gwestiwn yn yr un frawddeg; dylid gwahanu'r rhain a'u cyflwyno fel eitemau ar wahân
- defnyddio brawddegau gweithredol lle y bo'n bosibl
- osgoi rhoi dau negydd yn agos at ei gilydd, e.e. 'braidd dim', 'na', 'dim llawer'
- osgoi cymalau annherfynol (non-finite clauses), a all olygu bod rhywfaint o wybodaeth yn cael ei cholli
- e.e. yn hytrach nag ysgrifennu 'Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r graff, cyfrifwch y nifer...' dylid ysgrifennu 'Cyfrifwch y nifer o... Defnyddiwch wybodaeth o'r graff'
- mae i rai geiriau neu ymadroddion ystyr technegol penodol ac ni ellir eu newid, e.e. yn Saesneg, 'settlement' (sy'n bwysig mewn daearyddiaeth, gwyddoniaeth ac astudiaethau busnes), 'plane'/'plain' (sy'n bwysig mewn technoleg, gwyddoniaeth, daearyddiaeth, hanes a TGCh; gweler yr enghreifftiau canlynol)
- geiriau neu ymadroddion y dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio mewn pynciau eraill er mwyn lleihau'r risg o gamddeall, e.e. yn Saesneg, 'plain language', 'came to a settlement (agreement)'
- osgoi is-gymalau
- osgoi geiriau â mwy nag un ystyr, e.e. 'magu', 'swydd' a 'bwrw' gan fod ystyron i'r geiriau hyn na ellir eu pennu ond drwy eu cyd-destun. Yn y Saesneg, gallai'r gair 'plane' hefyd gael ei ddrysu â'r gair 'plain'. Yn yr achos hwn, mae i'r ddau air lawer o ystyron na ellir eu pennu ond drwy eu cyd-destun.

Geiriau gorchymyn

Dylid bod yn gyson wrth ddefnyddio geiriau gorchymyn (gweler 'Atodiad 5: Geirfa') ym mhob un o gymwysterau corff dyfarnu, cyn belled â bo hynny'n ymarferol. Mae defnydd cyson o iaith yn ei gwneud yn haws i ddysgwyr, athrawon ac arholwyr ddeall gofynion yr asesiad.

Addasu iaith

Mae addasu iaith yn y ffynhonnell yn helpu i sicrhau y gall dysgwyr ateb a chael eu hasesu ar y cwestiynau ar sail eu gwybodaeth yn hytrach na'u gallu i ddehongli iaith y cwestiwn.

Caiff y broses o addasu iaith i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio a phrosesu iaith ysgrifenedig a llafar ei chynnal ar ôl i'r papur arholiad gael ei

ysgrifennu a'i adolygu gan yr arbenigwyr pwnc. Mae addaswyr iaith hyfforddedig yn adolygu'r papurau gan ystyried anghenion y grŵp eang hwn o ddysgwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn cynnwys y rheini sy'n fyddar, â nam ar eu golwg, neu efallai'r rheini â dyslecsia, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, Saesneg fel ail iaith a llawer o rai eraill.

Asesiadau ysgrifenedig

Dylai asesiadau ymdrin â chynnwys pynciau ar y lefel briodol heb ragfarn neu stereoteipio.

Dylai'r cyfarwyddyd ddweud wrth ddysgwyr yn glir pa wybodaeth sydd ei hangen a sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth honno. Mae angen i ddatganiadau fod yn gyson (e.e. defnyddio'r term 'llyfryn' a/neu 'nodwch') ac osgoi defnyddio ymadroddion llafar, e.e. 'cadwch lygad ar yr amser'.

Mae cyrff dyfarnu yn defnyddio arbenigwyr i addasu deunyddiau asesu a baratowyd i ddiwallu anghenion penodol. Fel y nodwyd uchod, gall cynnwys arbenigwyr mynediad a chydraddoldeb ynghyd ag arbenigwyr pwnc ar gam cynnar yn ystod y broses ddatblygu leihau'r angen i wneud addasiadau'n ddiweddarach.

Gall fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at eiriau gorchymyn.

Gall diagramau gwael a labelu annigonol arwain at ddryswch. Dylid cadarnhau bod lliwiau a chyferbyniad yn addas, yn enwedig i fyfyrwyr â nam yn ymwneud â gweld lliwiau. Gellir gweld canllawiau defnyddiol, gan gynnwys gwybodaeth am y cymarebau cymhariaeth lliw gofynnol rhwng lliwiau y mae'n rhaid eu defnyddio, yn:
www.colourblindawareness.org

Mae cyhoeddiad The British Association of Teachers of the Deaf (BATOD) *Language of Examinations: 2il argrffiad 2003: diweddarwyd Hydref 2011* (BATOD, 2011) yn ffynhonnell ddefnyddiol. Bwriedir i'r llyfryn hwn gael ei ddefnyddio gan athrawon disgyblion byddar a'r rheini sy'n ysgrifennu neu'n addasu arholiadau, ac mae'n cynnig canllawiau ar wella hygyrchedd (gellir cymhwyso'r egwyddorion a ddisgrifir at unrhyw arholiad ysgrifenedig neu wrth addasu unrhyw destun) a gellir ei weld yn
https://www.batod.org.uk/information/language-examinations-2nd-edition-2011/

Mae adnoddau defnyddiol ar dudalen we 'Access to exams and tests' y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall. Gweler
www.rnib.org.uk/services-we-offer-advice-professionals-education-professionals/access-exams-and-tests

Mae canllawiau Cymdeithas Fformatau Hygyrch y DU (UKAAF) ar safonau gofynnol a dogfennaeth eraill, sy'n cynnwys cyngor gan y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, ar gael ar ei gwefan.
www.ukaaf.org/minimum_standards/

Darllenadwyedd

Mae'r pwyntiau canlynol yn ymdrin â darllenadwyedd cwestiynau, ac maent wedi'u haddasu o *Guidance on the Principles of Language Accessibility in National Curriculum Assessments* (Ofqual, 2012). Dylid ystyried pob pwynt yn ei rinwedd ei hun, ac o safbwynt cyffredinol. Nid yw newidiadau sy'n gwneud synnwyr ar eu pen eu hunain, bob amser yn gweithio'n dda o'u cyfuno.

Strwythur brawddegau

Mae hyd a chymhlethdod brawddegau yn gallu effeithio ar ddarllenadweydd cwestiynau asesu. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y nodweddion hyn, oherwydd:

- Nid yw hyd brawddegau yn ffactor absoliwt o ran pa mor anodd ydynt i'w deall
- Gall cymhlethdod brawddegau arwain at gamddealltwriaeth i ddarllenwyr amhrofiadol, ac felly gall hynny fod yn ddangosydd mwy defnyddiol o ba mor anodd yw brawddeg mewn cwestiynau asesu.

Mae'r nodweddion canlynol mewn brawddegau yn dylanwadu ar gymhlethdod brawddegau.

- Nifer y gosodiadau (cymalau)
- Nifer y gwelyadau
- Ym mha drefn y mae'r prif elfennau'n ymddangos
- Y pellter rhwng yr elfennau hanfodol.

Dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio strwythurau brawddegau ag atalnodi cywir a llif cysyniadol rhesymegol lle bynnag y bo'n bosibl (e.e. yn Saesneg: goddrych, berf, gwrthrych). Dylid osgoi is-gymalau oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol. Er enghraifft, mae'r cwestiwn gwyddoniaeth canlynol yn ddiangen o gymhleth.

> *'Pe darperir tair gwialen fetel wedi'u paentio i fyfyriwr, y gwyddys bod un ohonynt wedi'i gwneud o efydd, un o ddur wedi'i fagneteiddio ac un o ddur heb ei fagneteiddio, digrifiwch sut y gallech, heb grafu'r paent, adnabod pob un o'r gwiail.'*

Mae'r fersiwn wedi'i hailddrafftio yn symlach. Noder bod y wybodaeth yn cael ei darparu gyntaf, ac yna bod y cyfarwyddyd yn ymddangos mewn brawddeg ar wahân.

> *'Mae gan fyfyriwr dair gwialen wedi'u paentio. Mae un wedi'i gwneud o efydd, un wedi'i gwneud o ddur wedi'i fagneteiddio ac un wedi'i gwneud o ddur heb ei fagneteiddio.*
>
> *Disgrifiwch sut y gallai'r myfyriwr adnabod pob un o'r gwiail, heb grafu'r paent.'*

Gall hyd yn oed frawddegau byrion fod yn anodd eu deall. Er enghraifft:

> *'Pa fath o asiant glanhau a fydd yn cael gwared ar y staeniau dŵr caled a adewir gan dap sy'n diferu ar fasn ymolchi?'*

Mae'r fersiwn wedi'i hailddrafftio yn symlach. Mae'n dilyn llif naratif rhesymegol. Mae'r cwestiwn wedi'i wahanu o'r wybodaeth drwy ddechrau ar linell newydd a defnyddio bwlch llinell rhyngddynt.

> *'Mae tap sy'n diferu yn gadael staeniau dŵr caled ar fasn ymolchi.*
>
> *Pa fath o asiant lanhau fydd yn cael gwared arnynt?*'

Dylai cyrff dyfarnu gyflwyno gwybodaeth mewn brawddegau byrion lle bynnag y bo'n bosibl. Dylid rhannu brawddegau cymharol fyr, hyd yn oed, os ydynt yn cynnwys llawer o wybodaeth wedi'i chywasgu. Os nad oes modd osgoi brawddegau hir, dylid eu cadw mor syml â phosibl.

Er enghraifft, mae'r cwestiwn canlynol yn fwy cymhleth oherwydd y defnydd o frawddeg hir; mae'r atalnodi'n anghywir ac mae'r frawddeg yn cael ei chyfleu'n rhannol yn y llais goddefol.

'Nodwch ddau ddiffyg sydd wedi'u gwneud yn y system gwres canolog (a ddarlunnir yn ffigur 3); gan ddisgrifio ym mhob achos sut y gellir cywiro'r diffyg.'

Mae'r fersiwn wedi'i hailddrafftio yn symlach: mae'r brawddegau'n fyrrach, mae'r atalnodi wedi'i gywiro, a defnyddir y llais gweithredol.

'Nodwch ddau ddiffyg yn y system gwres canolog a ddangosir yn ffigur 3.

Disgrifiwch sut i gywiro'r ddau ddiffyg.'

Ieithwedd

Dylid osgoi defnyddio testun dwys, geiriau a throsiadau diangen, ymadroddion trwsgl a gwybodaeth ddiangen. Er enghraifft, mae'r cwestiwn canlynol yn cynnwys brawddeg sy'n fyr ond yn ddwys.

'*Mae pedwar allan o bump o'r 35 o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn mynd ar daith maes*'.

Faint o ddisgyblion fydd ar y daith?'

Mae'n haws deall yr hyn sydd ei angen os caiff y frawddeg gyntaf ei rhannu.

'Mae 35 o ddisgyblion mewn dosbarth Blwyddyn 11. Mae pedwar o bob pump ohonynt yn mynd ar daith maes.

Faint o ddisgyblion fydd ar y daith?'

Efallai yr ymddengys bod ymadroddion blodeuog yn ychwanegu sylwedd i gwestiwn, ond yn aml maent yn cyflwyno cymhlethdod diangen. Nid yw'r ymadrodd 'ar y cyd â' yn cyfleu dim mwy na'r gair 'gyda'. Er enghraifft, mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chyfleu mewn ffordd drwsgl.

'O ystyried bod carreg yn cymryd 1.8 eiliad i syrthio pellter o 16m, pa mor hir y byddai'n ei gymryd i syrthio pellter o 25m?'

Mae'r fersiwn symlach ganlynol yn haws ei deall. Nawr, mae'r cwestiwn yn canolbwyntio ar y sgiliau mathemategol gofynnol, yn hytrach na sgiliau deall iaith.

'Mae'n cymryd 1.8 eiliad i garreg syrthio 16m.

Faint o amser y mae'n cymryd iddi syrthio 25m?'.

Mae'r cyfarwyddyd isod yn cynnwys nifer o eiriau diangen, a rhai ymadroddion trwsgl.

'*Rhaid i'r arsylwadau hyn, ynghyd â'r casgliadau y byddwch yn dod iddynt yn eu sgil, gael eu trawsgrifio er mwyn eu cofnodi i'r tabl a ddarperir i chi ar y dudalen gyferbyn.'*

Byddai'n ddigon ysgrifennu'r canlynol.

'Cofnodwch eich arsylwadau a'ch casgliadau yn y tabl ar y dudalen gyferbyn.'

Gall trosiadau fod yn gamarweiniol os bydd dysgwyr yn eu cymryd yn llythrennol: Gallai *'Pam oedd y llywodraeth yn edrych yn ddu ar y gyfundrefn?'* gael ei ailysgrifennu i ddweud *'Pam oedd y llywodraeth yn gwrthwynebu'r gyfundrefn?'* . Yn yr un modd, gallai *'Roedd yn crynu yn ei sgidiau'* gael ei ailysgrifennu i ddweud *'Roedd arno ofn'*.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o eiriau y gallai cyrff dyfarnu fod am eu hosgoi. Awgrymir opsiynau amgen posibl.

Osgoi	**Amgen**
o ganlyniad i	oherwydd
cadarnhau	cael gwybod
cychwyn	dechrau
ynglŷn â	am
terfynu	stopio
ymdrechu	ceisio
gwallus	anghywir
hwyluso	helpu

Dylai cyrff dyfarnu hefyd wneud y canlynol:

- Cynnwys jargon neu iaith dechnegol benodol dim ond os ydyw ei deall neu ei defnyddio yn un o ofynion yr asesiad
- Osgoi gofyn mwy nag un cwestiwn mewn un frawddeg
- Gwahanu cwestiynau oddi wrth wybodaeth arall
- Osgoi cymalau annherfynol (non-finite clauses) ar ddechrau brawddegau.

Er enghraifft, mae'r testun canlynol yn cynnwys dau gwestiwn.

> *'Enwch un cynnyrch bob dydd sy'n gallu cael ei ailgylchu, gan nodi'r prif ddeunydd y gellir ei adfer ohono.'*

Mae gwahanu'r cwestiynau yn gwella'r eglurder.

> '*Enwch un cynnyrch bob dydd sy'n gallu cael ei ailgylchu.*
>
> *Nodwch y prif ddeunydd y gellir ei adfer o'r cynnyrch.*'

Gall y cwestiynau canlynol gael eu gwneud yn symlach ac yn decach drwy eu haildrefnu ychydig.

'Gan gyfeirio'n benodol at wahaniaethau rhwng papurau newydd lleol wythnosol traddodiadol a'r cystadleuwyr am ddim, mwy newydd, eglurwch sut mae'r cydbwysedd rhwng refeniw hysbysebu, costau a'r pris ar y clawr yn gweithredu yn y diwydiant papurau newydd.'

Gallai'r cwestiwn gael ei ailysgrifennu fel a ganlyn.

'Eglurwch y cydbwysedd rhwng refeniw hysbysebu, cost a'r pris ar y clawr yn y diwydiant papurau newydd.

Yn eich ateb, cyfeiriwch at y gwahaniaethau rhwng papurau newydd lleol wythnosol traddodiadol a'u cystadleuwyr am ddim, mwy newydd.

Nid yw'r cwestiwn canlynol yn hawdd ei ddeall.

'Pa resymau y gallwch eu hawgrymu am y ffaith, o blant a roddwyd yn y set addysgu isaf ar gyfer pwnc, fod 5 y cant o gefndiroedd proffesiynol a bod 32 y cant o gefndiroedd heb sgiliau?'

Mae'n haws deall y cwestiwn os caiff ei wahanu oddi wrth y wybodaeth gefndirol, fel a ganlyn.

'Yn y set addysgu isaf ar gyfer pwnc, roedd 5 y cant o'r plant o gefndiroedd â rhieni mewn swyddi proffesiynol a 32 y cant o gefndiroedd â rhieni mewn swyddi heb sgiliau.

Awgrymwch resymau dros y ffeithiau hyn.'

Dylid osgoi'r llais goddefol lle bynnag y bo'n briodol gan ei bod hi'n haws deall y llais gweithredol. Mae berf yn y llais goddefol yn dweud bod rhywbeth yn cael ei wneud yn hytrach na bod rhywun yn gwneud rhywbeth, e.e. Mae 'cafodd y car ei werthu gan ddeliwr cymeradwy' yn oddefol, tra bod 'gwerthodd deliwr cymeradwy y car' yn weithredol.

Mae'r cwestiwn canlynol yn defnyddio'r llais goddefol.

> *'Nodwch ddau ddiffyg yn y broses o gynllunio'r arbrawf a nodir, gan ddisgrifio yn y ddau achos, sut y gellir cywiro'r diffyg.'*

Mae defnyddio'r llais gweithredol, fel a ganlyn, yn rhoi cyfarwyddyd mwy uniongyrchol i'r dysgwyr, ac mae'r cwestiwn wedi'i wella ymhellach drwy ei rannu'n ddwy ran.

> *'Nodwch ddau ddiffyg yn y broses o gynllunio'r arbrawf hwn.*
>
> *Disgrifiwch sut i gywiro'r ddau ddiffyg.'*

Geirfa

Dylai cyrff dyfarnu osgoi mynegiant negyddol ('nid') neu rannol negyddol ('dim ond') lle bynnag y bo'n bosibl. Os yw mynegiant negyddol yn hanfodol, dylid ei nodi mewn teip bras er mwyn helpu'r dysgwyr i sylwi arno, neu eirio'r cwestiwn fel ei fod yn cynnwys yr ymadrodd 'ac eithrio/ar wahân i'.

Dylid osgoi sefyllfaoedd lle mae ateb un cwestiwn yn anghywir yn golygu ei bod yn amhosibl ateb cwestiwn yn gywir yn ddiweddarach, oni bai bod yr asesiad yn canolbwyntio ar gysylltiad. Mae cysylltiadau diangen yn cosbi dysgwyr fwy nag unwaith am yr un camgymeriad.

Sicrhewch fod geirfa cwestiynau yn addas ar gyfer lefel a chyd-destun yr asesiad. Dylai gwahaniaethiad fod yn seiliedig ar gynnwys pwnc yn hytrach na geirfa. Mewn TGAU gydag arholiadau ar wahanol haenau, mae'n bwysig cynnal cysondeb yr iaith ym mhob haen. Dylai defnyddio geirfa gyson ar draws yr haenau helpu i sicrhau bod dysgwyr a thiwtoriaid yn glir ynghylch y gofynion. Mae'n bosibl y gallai dysgwyr â phroblemau defnyddio a phrosesu iaith sefyll y papurau uwch felly mae angen defnyddio iaith hygyrch.

Dylid defnyddio berfau/adferfau yn hytrach nag enwau haniaethol perthynol. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn 'Pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau

amddiffyniad i ddur rhag rhwd?', defnyddier 'Sut y gallwch amddiffyn dur rhag rhydu?'

Dylid osgoi geiriau â mwy nag un ystyr, oni bai bod yr asesiad yn canolbwyntio arnynt. Gall dysgwyr wneud penderfyniadau gwahanol, dilys am yr ystyr a gaiff ei gyfleu. Er enghraifft, yn Saesneg, gellir dehongli'r term ‘settlement’ fel ‘village’, ‘agreement’ neu ‘payment’; gall ‘revolution’ olygu ‘uprising’ or ‘rotation’.

Mae'r geiriau mewn teip bras yn gwneud y cwestiynau canlynol yn amwys.

> *‘Y **peth diwethaf** y dylech ei wneud wrth weini soufflé yw ei adael i setlo. Eglurwch pam.’*

Rhowch y cwestiwn mewn trefn amser:

> *‘Rydych wedi gwneud soufflé. A fyddech yn ei adael i setlo cyn ei weini? Rhowch resymau dros eich ateb.’*

Yn y cwestiwn Saesneg canlynol, amwysedd y gair 'sound' a'r defnydd o derm trosiadol yw'r ddau reswm pam mae'r cwestiwn yn aneffeithiol.

> *‘Some walkers see whistling as **a sound way** to keep cheerful on a lonely path. Suggest one reason why.’*

Yn yr enghraifft Saesneg hon, byddai'n hawdd dewis gair arall yn lle 'overall' neu ei hepgor yn gyfan gwbl.

> *‘The decorators’ equipment looked modern enough, but their **overall** appearance was shabby.’*

Mae'r cwestiwn nesaf yn eithaf anodd ei addasu.

*'Trafodwch sut y gall delwedd gyhoeddus cwmni gael ei effeithio yn ôl y ffordd y mae ei gyflogeion yn **edrych**.'*

Byddai rhoi 'ymddangos' yn lle 'edrych' yn golygu cyfnewid un gair amwys am un arall. Byddai'n fwy effeithiol cyflwyno'r cwestiwn mewn ffordd arall.

'Mae rhai cwmnïau'n gofyn i gyflogeion wisgo dillad smart i'r gwaith. Pam maen nhw'n gwneud hyn? Yn eich ateb, trafodwch ddelwedd gyhoeddus cwmnïau'

Defnyddiwch eiriau gorchymyn yn gyson ac yn gywir. Dylid defnyddio geiriau gorchymyn gwahanol i annog gwahanol fathau o ymateb, yn hytrach nag er mwyn ceisio sicrhau amrywiaeth.

Lle caiff asesiad neu dasg ysgrifenedig eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Wyddeleg, dylai'r drafft gael ei wirio gan arbenigwr iaith ac arbenigwr pwnc a all sicrhau cywirdeb y termau technegol. Mae angen i bapurau a thasgau fod yr un mor hygyrch â'i gilydd, a bod yr un mor heriol yn y ddwy iaith.

Gallai'r broses gyfieithu ddatgelu amwysedd yn y testun gwreiddiol. Os bydd amwysedd, dylai'r cwestiwn gael ei ddiwygio. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ystyried trosi i Iaith Arwyddion Prydain yn ystod y broses gynllunio er mwyn sicrhau eglurder a chydraddoldeb ym mhob iaith swyddogol.

Eglurdeb

Mae pob un o'r pwyntiau canlynol yn ymdrin ag agwedd ar eglurdeb.

Dylai cyrff dyfarnu ystyried cynllun asesiadau ysgrifenedig yn ofalus. Gall dull cyflwyno gwael amharu ar gyfathrebu effeithiol.

Dylid defnyddio ffont priodol o faint digonol:

- Yr uned arferol ar gyfer mesur maint ffontiau yw'r 'pwynt'
- Mae print arferol yn 10 neu 12 pwynt fel arfer a gall fod hyd yn oed yn llai na hyn mewn rhai papurau newydd
- Ffont o faint 12 pwynt a ddefnyddir yn aml ar gyfer asesiadau ysgrifenedig am ei fod yn hygyrch yn gyffredinol. Gall hyd yn oed newid bach i faint ffont, e.e. i 10 pwynt, amharu ar eglurder
- Fel egwyddor gyffredinol, mae ffont sans serif fel Arial, Calibri, Helvetica neu Verdana yn hawdd ei ddarllen
- Dylid osgoi ffontiau serif gan eu bod yn anoddach i'w darllen
- Mae cynyddu'r bwlch rhwng y llinellau o 1.2 - 1.5 yn gwella eglurder.

Addaswyd o ganllawiau Cymdeithas Fformatau Hygyrch y Deyrnas Unedig (UKAAF)[3] a Chanllaw Arddull Dyslecsia 2018[4] Cymdeithas Dyslecsia Prydain (BDA).

Dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio tanlinellu, print bras, italics, blychau, cilosodiadau a chysgodi'n gyson. Ni ddylid gorddefnyddio print bras/tanlinellu gan ei fod yn gallu drysu darllenwyr gwannach.

Dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio penawdau, is-benawdau, pwyntiau bwled a rhifau er mwyn sicrhau bod cwestiynau wedi'u strwythuro'n dda, yn glir ac yn hawdd eu rheoli. Dylid ceisio sicrhau bod penawdau wedi'u hadlewyrchu yn strwythur semantig a thagiau'r fersiynau digidol o'r papurau cwestiynau sydd ar gael i ddefnyddwyr sydd â nam yn ymwneud â defnyddio deunydd argraffedig.

[3] www.ukaaf.org/large-print/
[4] https://www.bdadyslexia.org.uk/employer/dyslexia-style-guide-2018-creating-dyslexia-friendly-content

Dylid defnyddio iaith sy'n sicrhau bod y cwestiwn neu'r dasg yn glir. Mae cyfarwyddyd asesiad ysgrifenedig yn cynnwys y datganiad canlynol

> *'Yn ogystal â'r papur hwn, mae angen llyfryn ateb 12-tudalen.'*

Gwybodaeth i'r goruchwylwyr yw hon, yn hytrach na'r dysgwr. Os yw'r wybodaeth i'r dysgwr, dylid defnyddio datganiad symlach, fel y canlynol.

> *'Cadarnhewch fod gennych lyfryn ateb 12-tudalen.'*

Diagramau

Dim ond lle y bydd diben neu fantais glir i bob dysgwr y dylai cyrff dyfarnu gynnwys diagramau, lluniau neu ffotograffau mewn cwestiynau. Dylai unrhyw destun mewn diagramau neu luniau y mae'n rhaid i'r dysgwyr ei ddarllen gael ei ddarparu mewn fformat hygyrch fel bod technoleg gynorthwyol yn gallu ei ddarllen.

Pan fo'r amcanion asesu'n caniatáu, dylid osgoi cwestiynau lle mae'r ateb cywir yn gofyn i ddysgwyr wahaniaethu rhwng lliwiau gwahanol yn unig. Gallai hyn roi dysgwyr dall neu ddysgwyr lliwddall dan anfantais.

Wrth ddefnyddio lliw mewn diagramau, siartiau a graffiau, rhaid gwahaniaethu rhwng lliwiau gan ddefnyddio'r safonau gofynnol o ran cymarebau lliwiau gwrthgyferbyniol[5].

Yn benodol, rhaid i destun a symbolau fod yn ddarllendawy yn erbyn lliwiau cefndirol a bodloni'r safonau gofynnol o ran cymarebau cyferbynnedd lliwiau (gweler tudalen 22) - er enghraifft, mae testun du ar gefndir coch yn aml yn anweladwy i bobl liwddall.

[5] www.w3.org/TR/UNDERSTANDING-WCAG20/visual-audio-contrast.html

Os na ellir cyflawni cyferbynnedd lliwiau oherwydd nifer y lliwiau sydd eu hangen, rhaid i chi hefyd ddarparu'r wybodaeth a roddir mewn lliw drwy ddulliau eraill[6].

Sicrhewch fod ffiniau rhwng gwahanol liwiau e.e. ar fap neu siart gylch, yn cael eu gwahanu gan liw sy'n cyferbynnu'n gryf, a bod y wybodaeth hefyd wedi'i labelu mewn ffordd arall, e.e. gan destun, llinellu, patrymau neu symbol, gan sicrhau bob amser y bodlonir cymarebau cyferbynnedd lliwiau rhwng lliw'r testun/symbol a'r lliw cefndirol.

Dylid cyflwyno llinellau o wahanol liwiau ar graffiau llinell ar ffurf patrymau/fformatau llinell gwahanol bob amser hefyd.

Llyfrynnau atebion

Os defnyddir llyfrynnau atebion, rhowch ddigon o le ar gyfer ymatebion dysgwyr.

Dangosoch y marciau a ddyrennir yn glir ar gyfer pob cwestiwn neu bob rhan o gwestiwn.

Sicrhewch fod y clawr wedi'i gynllunio'n glir ac yn cynnwys dim ond gwybodaeth hanfodol am yr asesiad. Er enghraifft, mae'r fersiwn hon o glawr yn cynnwys gormod o wybodaeth ac mae wedi'i chynllunio'n wael, ac mae'r cefndir yn rhy dywyll, sy'n golygu ei bod yn anodd darllen y testun.

[6] gweler Atodiad C o'r Canllaw i Ddiogelwch mewn safleoedd Chwaraeon: https://sgsa.org.uk/worked-examples-and-annexes/

Enghraifft:

TGAU Daearyddiaeth *(Cyfeirnod 510Geo/A) Papur 2 x*
Haen Sylfaenol: Cyfeirnod y Papur 2015/510/1a
Dydd Llun 15 Mehefin 2015 rhwng 1.30 p.m. a 3.30 p.m. (Dwy awr o hyd).

Dylid ateb y papur mewn inc du neu las ar y daflen ateb a ddarparwyd i chi.

Cyfarwyddiadau a gwybodaeth y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod yr Arholiad.
Dylid gwneud unrhyw nodiadau bras yn y Llyfr Atebion, a rhoi llinell drwy unrhyw waith na fwriedir iddo gael ei farcio.

Caiff marciau ar gyfer pob cwestiwn eu dangos mewn cromfachau gyda chyfanswm o 95 ac uchafswm o 5 marc ar gyfer gallu ymgeiswyr i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.

Mae rhywfaint o ddeunydd ffynhonnell er gwybodaeth ar gyfer Cwestiwn 1 y gellir ei gweld ar dudalennau 5 a 6 (sydd yn dyllog) a gellir eu rhwygo allan a'u defnyddio gyda'r cwestiwn.
Ar y daflen ateb, dylech weld bod lle i nodi enw'r dysgwyr a rhif y papur.

Rhif Cofnod yr Argraffwr. N214739004d
Dim ond yn unol â pholisi hawlfraint llym y gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn © 2015

Mae'r fersiwn ganlynol o'r clawr yn cynnwys llai o wybodaeth ac mae wedi'i threfnu mewn ffordd fwy rhesymegol. Mae'r cyferbynnedd yn well ac mae'r wybodaeth hanfodol yn haws ei gweld a'i deall.

Enghraifft:

TGAU Daearyddiaeth
PAPUR 2

Haen Sylfaenol: Cyfeirnod y Papur 2010/510/1a
Dydd Llun 15 Mehefin 2015: 1.30p.m. i 3.30p.m. Mae gennych ddwy awr.

Cyfarwyddiadau
Defnyddiwch inc glas neu ddu.

Ysgrifennwch eich enw a rhif y papur ar y llyfryn atebion yn y gofod a ddarperir.

Mae ffynonellau gwybodaeth ar gyfer Cwestiwn 1 wedi'u hargraffu ar dudalennau 5 a 6. Mae'r tudalennau hyn yn dyllog. **Dylech eu rhwygo allan yn awr a'u defnyddio i'ch helpu â'ch ateb.**

Gwnewch unrhyw nodiadau bras yn y llyfr atebion. **Rhowch linell drwy unrhyw waith nad ydych am iddo gael ei farcio.**

Gwybodaeth
Y marc uchaf ar gyfer y papur yw 100. Mae'r marciau ar gyfer pob cwestiwn wedi'u nodi mewn cromfachau.

Lle mae cwestiynau'n cynnwys marciau ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg, nodir y marciau hyn ar wahân.

Bydd pob dysgwr yn cael budd o gynllun syml a threfnus i asesiadau ysgrifenedig. Gallai lleihau'r angen am bapurau wedi'u haddasu fod yn fantais arall.

Er enghraifft, mae'r fersiwn gyntaf o'r cwestiwn canlynol yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw'r arwyddion wedi'u labelu'n glir, nid yw'r tair rhan i'r cwestiwn wedi'u gwahanu ac ni roddir dadansoddiad o'r marciau a ddyrennir.

Enghraifft

Mae gan ddau o'r symbolau isod un llinell gymesuredd ac mae gan un gymesyredd cylchdro.

Φ	®	☎	▪

Nodwch ba un o'r symbolau sydd ag un llinell gymesuredd a pha un sydd â chymesuredd cylchdro, gan nodi trefn y cymesuredd cylchdro.

_____

_____ _____

_____

_____ _____

(4 marc)

Yn y fersiwn nesaf o'r cwestiwn, rhoddwyd labeli penodol ar yr arwyddion (y rhifau). Maent hefyd yn fwy o faint. Mae gwahanol rannau'r cwestiwn wedi'u gwahanu ac mae'r marciau a ddyrennir i bob un wedi'u nodi.

Enghraifft

*Dyma **bedwar** symbol.* Mae pob un wedi'i labelu â rhif.

1	**2**	**3**	**4**

(a) *Dim ond un llinell gymesuredd sydd gan **ddau** o'r symbolau hyn.*

Ysgrifennwch rifau'r ddau symbol hyn:

_____ a _____ (2 farc)

(b) Mae gan **un** symbol gymesuredd cylchdro.

(i) Ysgrifennwch rif y symbol hwn.

_____ (1 marc)

(ii) Ysgrifennwch drefn y cymesuredd cylchdro:

_____ (1 marc)

Mae'r tabl a ddefnyddir yn y cwestiwn canlynol yn anodd ei ddehongli; mae'n amharu ar brif ddiben y dasg, sef profi sgiliau dadansoddi'r dysgwyr. Ni ddefnyddiwyd digon o fylchau a gallai'r cysgodi mewn rhes achosi dryswch gweledol i rai dysgwyr.

Enghraifft

Astudiwch y data yn y tabl isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Mae'r ffigurau ar gyfer yr achosion o ladrata cerbydau a adroddwyd mewn dinasoedd penodol wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1			
Dinas	Blwyddyn		Canran y cynnydd neu'r gostyngiad
	2013	2014	
	Niferoedd		
Lloegr			
Bryste	606	635	+5
Newcastle	856	890	+4
Birmingham	1255	1180	-6
Cymru			
Abertawe	825	790	-4
Caerdydd	740	785	+6

Mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno'n well yn y fersiwn ganlynol o'r tabl. Mae'n haws i bob dysgwr ddod o hyd i'r data perthnasol, ond mae'r dasg allweddol, sef dehongli, yn mynnu'r un lefel o ddealltwriaeth o'r pwnc. Mae mwy o fylchau rhwng ffiniau'r celloedd a'r cynnwys. Ni cheir ychwaith unrhyw gysgodi, sy'n gallu achosi dryswch gweledol i rai darllenwyr. Os defnyddir cysgodi, mae'n ddefnyddiol sicrhau ffiniau clir.

Enghraifft

Astudiwch y data yn y tabl yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Nifer yr achosion o ladrata cerbydau a adroddwyd mewn dinasoedd penodol yng Nghymru a Lloegr
2013 i 2014 a chanran y newid

Dinas	2013	2014	Canran y newid
Birmingham	12	11	-6
Bryste	556	806	+5
Caerdydd	07	37	+6
Newcastle	48	88	+4
Abertawe	58	97	-4

Eitemau aml-ddewis

Mae'r pwyntiau uchod yn berthnasol i asesiadau ysgrifenedig ar bob ffurf. Lle mae'r asesiad ysgrifenedig yn cynnwys eitemau aml-ddewis, mae ffactorau ychwanegol i'w hystyried. Gall cwestiynau aml-ddewis fod yn heriol iawn yn ieithyddol ac mae angen eu hysgrifennu'n ofalus iawn. Mae gan y swyddog addasu iaith rôl bwysig. Yn ogystal, dylid gallu cyfieithu cwestiynau i'r ieithoedd swyddogol heb effeithio ar eu hystyr.

Yr hyn sy'n hollbwysig wrth ysgrifennu eitemau aml-ddewis da yw sicrhau bod y cwestiwn:

- yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc dan sylw
- yn canolbwyntio ar y sgil neu'r wybodaeth sy'n cael ei hasesu
- wedi'i gyflwyno'n eglur
- yn rhydd o unrhyw fanylion diangen
- yn defnyddio iaith syml
- yn asesu un peth ar y tro
- yn defnyddio cyn lleied o eiriau â phosibl

- â dim ond **un** ateb cywir lle y bo'n bosibl. Mewn pynciau a chwestiynau penodol, efallai na fydd hyn yn bosibl; yn yr achosion hyn, gall hynny gael ei gymhwyso yn y cynllun marcio
- yn osgoi defnyddio'r negydd (e.e. 'nid', 'neb')
- yn osgoi defnyddio termau personol (e.e. 'ti', 'ni')
- yn cymryd tua munud i'w ateb
- wedi'i brofi ymlaen llaw
- wedi'i adolygu a'i olygu (os oes angen).

Dylai cyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- sicrhau, fel gydag asesiad ar unrhyw ffurf arall, bod unrhyw brawf sy'n cynnwys eitemau aml-ddewis yn ddibynadwy ac yn ddilys
- gofalu bod bôn y cwestiwn a'r opsiynau (allweddol a'r gwrthdynwyr) yn glir a diamwys. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer yr opsiynau lle gall y gwahaniaethau fod yn gynnil
- sicrhau bod y bôn yn gofyn un cwestiwn/cyflwyno un broblem yn unig
- lle y bo'n bosibl, cyfyngu ar hyd y gwrthdynwyr a'r ateb allweddol; mae cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y bôn yn hytrach nag ym mhob opsiwn yn ddefnyddiol yn gyffredinol, er mwyn datblygu eitemau clir a diamwys
- ar gyfer darllenwyr gwan, ystyriwch hepgor y bôn yn gyfan gwbl, gan ddefnyddio pedwar datganiad cyflawn yn lle hynny. Mae'n bosibl na fydd darllenwyr gwan bob amser yn gwybod i fynd yn ôl i ddarllen y bôn, ac yna symud ymlaen i ddarllen ail hanner y frawddeg. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer rhestrau pwyntiau bwled
- dylid osgoi cynnwys manylion amherthnasol mewn ymdrech i wneud yr ateb cywir yn llai amlwg. Gall hyn olygu bod sgiliau darllen, yn hytrach na dealltwriaeth o'r pwnc, yn cael dylanwad sylweddol ar allu dysgwyr i ddewis yr ateb cywir.

Asesiadau mewnol

Mae cyrff dyfarnu yn defnyddio termau gwahanol ar gyfer asesiadau lle caiff tystiolaeth ei chasglu dros gyfnod o amser, yn aml y tu allan i amodau arholiad. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Dylai portffolios, gwaith cwrs, arsylwadau yn y gwaith, cwestiynau llafar, aseiniadau ac asesiadau prosiect gynnig cyfleoedd i bob grŵp ddangos yr hyn maent yn ei wybod, ei ddeall a'r hyn y maent yn gallu ei wneud. Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term

'asesiad mewnol' i gwmpasu pob opsiwn sy'n seiliedig yn y ganolfan neu sydd wedi'i gyfeirio gan ganolfan.

Rhaid i gyrff dyfarnu ddarparu canllawiau clir i aseswyr mewnol. Mae Amod H1.1 o'r Amodau Cydnabod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu:

> '... roi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau, hyd y gellir, fod y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng perfformiad dysgwyr –
> (a) yn cael eu deall gan aseswyr a'u defnyddio'n gywir
> (b) yn cael eu defnyddio'n gyson gan aseswyr, waeth pwy yw'r aseswr, y dysgwr neu'r ganolfan.

Mae asesiadau mewnol yn rhoi cyfle i ganolfannau hyrwyddo mynediad teg i bob dysgwr. Mae angen rheoli'r graddau o hyblygrwydd a ddefnyddir mewn asesiadau er mwyn sicrhau dilysrwydd. Lle ceir rheolaeth gadarn o bwyntiau allweddol mewn asesiadau dan reolaeth, gellir manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno cyd-destun er mwyn cefnogi hygyrchedd.

Dylai unrhyw elfen o gymhwyster a gaiff ei hasesu'n fewnol gyfateb i safonau ansawdd a thegwch rhannau eraill o'r asesiad. Lle caniateir i ganolfannau lunio eu tasgau asesu eu hunain, dylai cyrff dyfarnu ddarparu digon o wybodaeth i'w galluogi i wneud hynny.

Mae angen i ganolfannau a chyrff dyfarnu sy'n cynllunio asesiadau mewnol a chynlluniau marcio ystyried y cyfyngiadau ymarferol y mae'r canolfannau'n gweithredu oddi tanynt ac, er enghraifft, p'un a fydd angen cynorthwyydd ymarferol neu ddehonglydd iaith arwyddion.

Mewn rhai cymwysterau, gall gwaith a aseswyd yn fewnol gael ei gynnig fel opsiwn amgen i elfen allanol. Yn yr achosion hyn, rhaid i lefel yr her yn y tasgau a'r meini prawf asesu cysylltiedig fod yn gymaradwy â'r hyn a geir yn yr opsiwn allanol.

Mae cyflwyniad, iaith a disgwyliadau clir yr un mor bwysig ar gyfer tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol ag y maent ar gyfer asesiadau allanol.

Lle mae'r asesiad yn canolbwyntio ar berfformiad ymarferol, gallai gwaith a gaiff ei asesu'n fewnol (gan gynnwys asesiadau dan reolaeth) gael eu hasesu gan ddefnyddio cyfyngiadau amser gwahanol i'r rheini sydd fel arfer yn gysylltiedig ag asesiadau allanol, yn ddarostyngedig i ganllawiau'r corff dyfarnu.

Cynllunio tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol

Mae pob un o'r pwyntiau a restrir isod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ystyried agwedd ar gynllun tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol. Mae llawer o'r egwyddorion a ystyriwyd mewn adrannau blaenorol o'r ddogfen hon yr un mor berthnasol yma.

Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod diben pob tasg yn glir. Mae darllenadweydd ac eglurder yr un mor bwysig ar gyfer gwaith a gaiff ei asesu'n fewnol ag y maent ar gyfer asesiadau allanol.

Sicrhewch fod tasgau'n ymdrin â'r meini prawf asesu yn amlwg heb fod yn ddiangen o ragnodol. Dylai tasgau ganiatáu dulliau amgen priodol o gasglu gwybodaeth ac ymateb, ar yr amod bod modd iddynt gael eu dilysu. Er enghraifft, mae'r dasg fusnes ganlynol wedi'i chynllunio'n dda.

> *Ewch ati i samplu barn cyflogeion ar raglen hyfforddi ffurfiol.*
>
> *Gwerthuswch eu sylwadau ac adroddwch i'r cyflogwr ar lwyddiant y rhaglen.*'

Mae'r ffordd gyffredinol y mae'r dasg wedi'i geirio yn golygu y gall dysgwyr gasglu'r wybodaeth ac adrodd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, gall dysgwyr ag anawsterau clywed neu gyfathrebu gwblhau'r dasg gan ddefnyddio holiadur ysgrifenedig, rhaglen gyfrifiadurol neu iaith arwyddion. Yna, gallent 'adrodd i'r cyflogwr' gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol heb beryglu dilysrwydd y dasg.

Dylid osgoi gofyniad i ddysgwyr ddangos sgiliau nad ydynt yn hanfodol i'r pwnc. (Gweler yr adran ar 'Asesiadau ymarferol, siarad a gwrando'.)

Dylech ofyn am asesiadau mewn sefyllfaoedd grŵp dim ond os yw'r sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen yn hanfodol i'r pwnc.

Sicrhewch fod tasgau a gaiff eu hasesu'n fewnol yn hygyrch ac yn cymhwyso anghenion amrywiol dysgwyr. Er enghraifft, mae'r dasg ganlynol yn gul am ei bod ond yn caniatáu un ffordd o ymateb.

'Ysgrifennwch gyfrif yn gwrthgyferbynnu agweddau ar fywyd gwaith ym Mhrydain yn oes Fictoria â bywyd gwaith heddiw.'

Mae'r fersiwn hon yn fwy cynhwysol ac yn symlach.

'Gwrthgyferbynnwch agweddau ar fywyd gwaith ym Mhrydain yn oes Fictoria â bywyd gwaith heddiw. Gall eich cyfrif fod wedi'i ysgrifennu â llaw, mewn iaith arwyddion neu ar lafar, neu wedi'i gyflwyno gan ddefnyddio cymhwysiad TGCh addas.'

Sicrhewch fod modd i dasgau gael eu cwblhau gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol a thechnoleg arall a ddefnyddir gan yr dysgwyr i ddysgu a gweithio.

Casglu tystiolaeth dros amser

Dylai cyrff dyfarnu ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddatblygu asesiadau lle caiff tystiolaeth ei chasglu dros gyfnod o amser. Mae'r rhain yn arbennig o berthnasol i lawer o gymwysterau galwedigaethol.

- Pennu unrhyw ofynion gorfodol ar gyfer y math o dystiolaeth, y swm o dystiolaeth a'r ffordd y caiff ei chyflwyno
- Cynllunio tasgau gyda dulliau amgen priodol ar gyfer casglu gwybodaeth a chyfleu ymatebion
- Datblygu meini prawf asesu sy'n mesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn hytrach na'r dull cyflwyno, oni bai bod hyn yn un o ofynion yr asesiad
- Pennu unrhyw gyfyngiadau amser ar y defnydd o dystiolaeth.
- Pennu'r gofynion ar gyfer dilysu'r dystiolaeth
- Darparu canllawiau clir ar dasgau a gaiff eu llunio gan ganolfannau
- Sicrhau bod asesiadau'n adlewyrchu arferion gwaith presennol, lle y bo'n bosibl
- Rhoi ystyriaeth i ffyrdd arferol y dysgwyr o weithio, gan gynnwys systemau cyffredin a llwyfannau meddalwedd.

Asesiadau ymarferol, siarad a gwrando

Mae sgiliau ymarferol yn ganolog i lawer o bynciau fel dawns, cerddoriaeth, celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth a TGCh, yn ogystal â llawer o gymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, dylid cynnwys asesiadau ymarferol dim ond lle maent yn hanfodol i'r cymhwyster.

Efallai y bydd cymhwyster yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr 'ddangos' amrywiaeth o dechnegau ymarferol. Mae hyn yn awgrymu bod angen i ddysgwyr ddefnyddio cyfarpar yn gorfforol er mwyn cael y marciau.

Os nad dyma ffocws yr asesiad, a bod modd newid y gofyniad yn briodol i 'ddangos gwybodaeth' am amrywiaeth o dechnegau ymarferol, gallai'r asesiad fod yn hygyrch i ddysgwyr â namau corfforol. Er enghraifft, gallai gofyniad i ddefnyddio offer neu offerynnau penodol mewn arholiad ymarferol roi rhai dysgwyr dan anfantais. Lle mae'r asesiad yn canolbwyntio ar gysyniad neu sgil datrys problemau, dylid osgoi gofyniad o'r fath.

Efallai y byddai gofyn bod dysgwyr yn gallu ymgymryd ag asesiad o'u sgiliau ymarferol gyda chynorthwyydd yn addasiad rhesymol. Ni fyddai'r dysgwr dan anfantais annheg gan y byddai angen iddo roi cyfarwyddiadau i'r cynorthwyydd yn seiliedig ar gymhwyso'i wybodaeth. Fodd bynnag, lle mae'r gofyniad yn ymwneud â safon cymhwysedd (e.e. chwarae offeryn cerddorol, neu mewn asesiad cynnal a chadw cerbyd neu dorri gwallt) mae dangos y sgil yn hanfodol.

Mae asesiad siarad a gwrando yn rhan bwysig o ieithoedd, cerddoriaeth, drama, a swyddi sy'n canolbwyntio’n gryf ar wasanaethau cwsmeriaid, fel hamdden a thwristiaeth neu ofal cymdeithasol. Mae asesiadau siarad a gwrando ymarferol yn cyflwyno manteision a heriau. Maent yn cynnig ffyrdd eraill i ddysgwyr (gan gynnwys y rheini sy'n cael anawsterau â thestun ysgrifenedig) ddangos eu cyrhaeddiad.

Nid yw'r un ffurf ar asesu yr un mor hygyrch i bawb. Er enghraifft, gall dulliau asesu sy'n gofyn am glyw arferol neu ddeheurwydd corfforol beri anawsterau i rai dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, dylid sicrhau bod dulliau amgen ar gael, oni bai bod yr asesiad yn canolbwyntio ar y sgil.

Gall mynegiant yr wyneb fod yn rhan bwysig o gyfathrebu. Mae'n bosibl na fydd dysgwyr nad ydynt yn gallu dangos mynegiant yr wyneb yn gallu cael marciau llawn mewn asesiad. Dylid ond cynnwys y gofyniad hwn os na ellir cynnal yr asesiad mewn unrhyw ffordd arall.

Cynllunio asesiadau ymarferol, siarad a gwrando

Rhaid ystyried yn ofalus a mynd ati mewn ffordd gytbwys i gynllunio asesiadau ymarferol, siarad a gwrando.

Dylai cyrff dyfarnu fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n cael ei asesu a chynllunio asesiadau nad ydynt yn canolbwyntio'n ddiangen ar ffurf benodol o asesu.

Cadarnhewch, lle y bo'n briodol, fod pob elfen yn caniatáu amrywiaeth o ddulliau ymateb. Dylid cynnwys dulliau asesu amgen lle bynnag y bo'n bosibl.

Ystyriwch gynhwysiant ar gam cynnar yn ystod y broses o gynllunio'r asesiad. Efallai y bydd y daflen cynhwysiant enghreifftiol (gweler Atodiad 2) yn adnodd defnyddiol i ddangos sut i nodi rhwystrau o fewn manyleb.

Dylid cynllunio asesiadau a deunyddiau nad ydynt yn dibynnu ar nodi eitemau wrth eu lliw, ac eithrio lle mae hyn yn hanfodol neu'n ofyniad mewn cymwysterau sy'n seiliedig ar gymwyseddau, megis mewn gwaith weirio trydanol neu gynhyrchu tecstilau. Lle nad oes modd osgoi defnyddio lliwiau, dylid dilyn canllawiau ar ddefnyddio labeli a fformatio ychwanegol.

Mewn rhai cymwysterau galwedigaethol (hamdden a thwristiaeth, astudiaethau busnes, ac ati) mae'n bosibl y bydd angen i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth a sgiliau mewn gofal cwsmeriaid, megis ateb ymholiadau cwsmeriaid. Efallai y gofynnir i ddysgwyr ateb y ffôn ar linell gymorth. Fodd bynnag, gall dealltwriaeth a sgiliau perthnasol gael eu dangos mewn amrywiaeth o ffyrdd eraill. Er enghraifft, gellid darparu ymatebion i ymholiadau ar ffurf llythyrau, negeseuon e-bost neu drwy greu tudalen we 'cwestiynau cyffredin'.

Mewn enghraifft arall, gallai prawf cerddoriaeth glywedol ofyn i ddysgwyr adnabod nodyn a roddir yn syth ar ôl y tonydd a enwir. Mewn ymateb, gall dysgwyr wneud y canlynol:

- rhoi enw llythyren y nodyn (D, E, ac ati)
- chwarae'r nodyn ar offeryn cerddorol
- nodi neu ddangos y nodyn ar erwyddfa gerddorol.

Mae'r tri dewis amgen hyn yn cynnig amrywiaeth o ddulliau ymateb dilys.

Lle y bo'n bosibl, dylid cynllunio tasgau siarad, gwrando ac ymarferol fel bod modd cofnodi a dilysu tystiolaeth fyw yn ôl yr angen.

Lle y bo'n briodol, dylid dewis tasgau sy'n debygol o fod o fewn profiad bywyd pob dysgwr. Er enghraifft, mae tasg siarad yn gofyn i ddysgwyr ddisgrifio gwyliau diweddar. Efallai na fydd rhai yn gallu uniaethu â'r dasg hon am nad yw gwyliau rheolaidd yn rhan o'u profiad bywyd. Gellid ail-gynllunio'r dasg hon i ofyn i ddysgwyr ddisgrifio taith ddiweddar. Dylai pob dysgwr allu uniaethu â'r dasg ddiwygiedig.

Dylai arddangosiadau ymarferol (gan gynnwys y rheini yn y gweithle), chwarae rôl, efelychiadau a thrafodaethau (gan gynnwys cyfweliadau unigol, cyfweliadau panel, trafodaethau proffesiynol a chwestiynau llafar) gynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddangos yr hyn y mae'n ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

Dewiswch dasgau sydd o fewn profiad bywyd y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ffordd gytbwys neu darparwch dasgau amgen a fydd yn addas i wahanol grwpiau.

Ystyriwch ofynion iechyd a diogelwch drwy gynnal asesiad risg yn ystod y cam cynllunio.

Ystyriwch drefniadau ymarferol a goblygiadau adnoddau gan gynnwys amseriadau, cyfarpar, staffio, cost-effeithiolrwydd a mynediad i adeiladau.

Dylid pennu unrhyw ddulliau asesu amgen derbyniol a chaniatáu amrywiaeth o ddulliau ymateb.

Ystyriwch sut y gall cyfraniad unigolyn gael ei asesu o fewn gwaith grŵp. Datblygwch gynlluniau marcio i sicrhau y gwneir dyfarniadau cyson ynghylch y safonau sy'n cael eu dangos.

Dylid mabwysiadu'r pwyntiau cynllunio perthnasol ar gyfer cyflwyno, cynllun ac eglurder unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a ddatblygir ar gyfer yr asesiad.

Dylid darparu cwestiynau dealladwy a chlir.

Dylid osgoi defnyddio cwestiynau â nifer o wahanol rannau iddynt yn ystod asesiadau llafar, a allai ddrysu'r dysgwr o ran pa ran o'r cwestiwn i'w hateb gyntaf.

Dylid osgoi defnyddio cwestiwn caeedig, oni bai bod angen penodol am ateb 'ie' neu 'na'. Gall cwestiynau caeedig wneud i ddysgwyr 'rewi', a byddai hyn yn fwy tebygol o ddigwydd o dan bwysau amodau arholiadau.

Defnyddiwch gwestiynau agored, gan gynnwys 'pam', 'beth', 'sut', 'ble' a 'phryd' er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad.

Deunydd ysgogi a ffynonellau

Caiff deunyddiau ysgogi a ffynonellau eu defnyddio'n aml i gefnogi asesiadau. Dylai deunyddiau ysgogi a gynlluniwyd neu a ddewiswyd gan aseswyr gael eu datblygu gan gadw mynediad teg mewn cof. Mae'r rhan fwyaf o ddeunyddiau ffynhonnell eisoes wedi'u creu at ddiben arall; anaml iawn y maent wedi'u creu gan y corff dyfarnu. Ni waeth o ble y dônt, dylent fod yn berthnasol ac yn ddilys o ran y dasg a bennwyd.

Mae lluniau, mapiau, ffotograffau, ffilm, sain, testun, diagramau, siartiau a graffiau i gyd yn enghreifftiau o ddeunydd ysgogi a ffynonellau. Gallant gael eu cyflwyno'n electronig neu fel copi caled.

Mae'n bwysig gofyn a yw'r ffynhonnell neu'r deunydd ysgogi yn ychwanegu gwerth at y cwestiwn. Dim ond lle y byddant yn rhan annatod o'r asesiad y dylid eu defnyddio, gan eu bod yn gallu creu rhwystr i rai dysgwyr.

Mae llawer o ddeunyddiau na ellid eu haddasu neu eu cynhyrchu'n effeithiol mewn Braille neu brint bras ar gyfer dysgwyr â nam ar eu golwg ac mae'n bosibl y bydd rhaid iddynt gael eu disgrifio mewn geiriau yn y fersiwn Braille. Mae angen sgiliau penodol i greu a dehongli Braille a diagramau cyffyrddol.

Gallai effeithiau sain a sŵn amgylchynol neu gerddoriaeth helpu i roi deunydd ysgogi clywedol yn ei gyd-destun. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd pobl â nam ar eu clyw yn gallu gwahaniaethu rhwng y deunydd ysgogi a'r sŵn cefndir. Weithiau, gall y synau cefndir ychwanegol wneud darn ysgogi yn fwy anodd ei ddeall i bobl â nam ar eu golwg.

Ni ddylai sŵn cefndir neu gyd-destunol gael ei chwarae y tu ôl i eiriau'r darn ysgogi (neu ddeunydd arall). Dylai unrhyw sain gael ei ddefnyddio i hwyluso dealltwriaeth o'r cyd-destun a dylai pobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau allu ei adnabod.

Mae'n bwysig bod deunyddiau ysgogi a ffynonellau yn cael eu cyflwyno'n glir, yn yr un modd â'r cwestiynau eu hunain. Dylai deunyddiau ysgogi a ffynonellau gael eu gwahanu oddi wrth weddill y cwestiwn. Yn yr enghraifft isod, caiff y deunydd ffynhonnell ei ddangos mewn blwch ar wahân.

Enghraifft

*Mae **Ffynhonnell A** yn rhestru rhai newidiadau pwysig mewn mwyngloddio ym Mhrydain.*

Ffynhonnell A

1842 Gwaherddir menywod a phlant dan 10 oed rhag gweithio dan y ddaear.
1850 Cyflwynir rheolau diogelwch ac arolygwyr y llywodraeth.
1872 Cyflwynir gofyniad am archwiliadau diogelwch dyddiol ym mhob pwll glo.

Gall problemau godi wrth addasu deunyddiau ffynhonnell, gan fod trydydd partïon fel arfer yn berchen arnynt. Mae rheoliadau hawlfraint yn berthnasol lle defnyddir detholiadau estynedig neu waith yn ei gyfanrwydd.

Mae'n debygol y bydd problemau'n ymwneud â cham-gyflwyno os caiff deunyddiau eu haddasu heb ganiatâd. Efallai y bydd angen ceisio cytundeb yr awduron a'r cyhoeddwyr a chydnabod perchenogaeth y deunydd gwreiddiol. Er enghraifft, lle caiff deunydd ffynhonnell ei gymryd yn uniongyrchol o wybodaeth sy'n berthnasol i faes galwedigaethol (e.e. detholiad o lawlyfr atgyweirio mewn asesiad ar gyfer cymhwyster technegydd) ni ddylai fod angen addasu'r deunydd am y byddai disgwyl i'r dysgwr ei ddeall a'i gymhwyso.

Dylai cyrff dyfarnu fod yn glir ynghylch diben cynnwys deunydd ysgogi neu ffynhonnell. Dim ond lle y bydd diben neu fantais glir i bob grŵp y dylid cynnwys diagramau, lluniau neu ffotograffau mewn cwestiynau.

Dewiswch ddeunydd sy'n gwella neu o leiaf yn cynnal darllenadwyedd ac eglurder y cwestiwn neu'r dasg. Os nad yw'n debygol o wneud hynny, dylid ailystyried ei ddiben, neu ddewis deunydd gwahanol. Er enghraifft, gall papurau newydd a chylchgronau poblogaidd gynnig syniadau ar gyfer deunydd ffynhonnell wedi'i ysgrifennu'n glir, cyhyd â bod cyrff dyfarnu yn ofalus ynghylch y cynnwys, diben defnyddio'r detholiad a ffocws yr asesiad.

Gall rhai papurau newydd adrodd mewn ffordd gyffrogarol. Fodd bynnag, mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth graff o'u cynulleidfa ac mae'n bosibl y byddant yn defnyddio iaith uniongyrchol. Hefyd, mae rhai papurau newydd yn defnyddio llawer o idiomau/ymadroddion llafar. Dylid osgoi detholiadau sy'n cynnwys iaith idiomatig oni bai mai astudio'r iaith hon yw diben yr asesiad.

Dylid cyflwyno testun mewn fformat cyfarwydd, oni bai bod yr asesiad yn canolbwyntio ar ddehongli fformatau newydd. Mae cyferbynnedd llym, diffiniad clir ac eglurdeb digonol yn helpu dysgwyr i nodi gwybodaeth bwysig yn hawdd. Mae angen i gynllun y testun gael ei ddehongli gan feddalwedd darllen sgrin a synthesis llais gyffredin. Gall testun a drefnir mewn colofnau beri problemau. Dylai diagramau, tablau, siartiau a graffiau gael eu labelu mewn ffordd y gellir ei dehongli'n anweledol, gan gynnwys gan systemau digidol, oni bai bod dehongli'n rhan o amcan yr asesiad (e.e. dylai llun o lew yn rhuo gael label testun naratif a/neu fetadestun yn dweud 'llun o lew yn rhuo mewn caets/sŵ/syrcas/gofod agored').

Defnyddiwch ddiagramau, siartiau a graffiau sy'n addas i'w haddasu ar gyfer dysgwyr â nam ar eu golwg. Nid yw addasu o reidrwydd yn golygu gwneud y testun yn fwy. Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall ac UKAAF yn cynnig canllawiau ar addasiadau, symleiddio a chynhyrchu diagramau cyffyrddol sy'n rhoi'r un wybodaeth i ddysgwr â nam ar ei olwg â dysgwyr eraill.

Dylid osgoi rhoi unrhyw wybodaeth ddiangen mewn diagramau, lluniau neu ffotograffau. Gall sgrinluniau o gyfrifiaduron gynnwys gwybodaeth ddiangen fel dewislenni. Gallai meddalwedd darllen sgrin arbenigol nodi'r wybodaeth a cheisio ei darllen neu ei chynnwys, gan arwain at ddryswch o wybodaeth wahanol.

Dylid osgoi testun ar ddelweddau neu destun ar ffurf delwedd. Ni all offer testun-i-leferydd ddarllen y rhain.

Dylid labelu nodweddion arwyddocaol gan ddefnyddio allwedd yn hytrach na dim ond llinellau a saethau, lle y bo'n bosibl. Rhaid i'r lliwiau a'r symbolau yn yr allwedd fod yn wahanol i'w gilydd ac yn ddiamwys.

Dylid cyflwyno tablau gyda cholofnau wedi'u gwahanu'n glir. Dylai tablau gael eu labelu'n glir fel bod pobl sy'n defnyddio meddalwedd darllen sgrin yn deall bod angen eu dehongli.

Dylid osgoi deunydd mewn llawysgrifen lle y bo'n bosibl. Os yw'r asesiad yn gofyn am ddeunydd o'r fath, gellid ystyried ffont sy'n edrych fel llawysgrifen.

Dylid cyflwyno gwybodaeth ofynnol yn agos at y cwestiwn dan sylw neu ar y dudalen gyferbyn, nid dros y dudalen. Bydd hyn yn helpu'r dysgwyr i gysylltu'r deunyddiau cysylltiedig â'i gilydd.

Sicrhewch nad oes dirywiad yng nghynllun y testun na safle'r delweddau os bydd angen i fyfyriwr ail-lifo a chwyddo fersiwn ddigidol o bapur arholiad.

Dylai'r math o ffont a maint y ffont gyfateb â'r rheini yn y deunydd cysylltiedig, lle y bo'n bosibl.

Dylid cynnwys cyfarwyddiadau clir a manwl lle defnyddir adnoddau ychwanegol. Er enghraifft, nodwch p'un a all dysgwyr wneud nodiadau wrth wylio clip fideo.

Lle bo ffynhonnell yn dangos tuedd neu safbwynt ystrydebol o grŵp penodol, cadarnhewch fod y cwestiwn cysylltiedig yn tynnu sylw at hyn neu'n gofyn am sylwadau arno. Er enghraifft, mae ffynhonnell yn honni mai ffordd o fyw a gwerthoedd Ewropeaidd yw'r gorau; gallai'r cwestiwn cysylltiedig ofyn yn briodol i ddysgwyr ystyried y safbwynt sy'n arwain at yr honiadau hyn a rhoi sylwadau ar y safbwynt hwnnw.

Cynlluniau marcio

Mae angen cynlluniau marcio addas at eu diben ar gyfer asesiadau a gynlluniwyd i sicrhau'r graddau mwyaf posibl o fynediad teg. Bydd cynlluniau marcio sy'n ddilys ac yn defnyddio iaith glir yn cefnogi dealltwriaeth a defnydd cyson, ynghyd â marcio cywir. Gweler y canllaw arfer da a gynhyrchwyd gan Cymwysterau Cymru.

Dylai cynlluniau marcio gael eu cynllunio mewn ffordd sy'n golygu y gallant gael eu cymhwyso'n hawdd ac yn gyson gan bob aseswr i bob papur safonol a phapur wedi'i addasu a phob ymateb. Mae'n bosibl y bydd gwaith wedi'i asesu a'r cynllun marcio cysylltiedig ar gael i athrawon a dysgwyr. Mae'n bwysig, felly, fod cynlluniau marcio yn dangos yn glir pa farciau a ddyfernir, ble a sut.

Fel rhan o'r broses ddatblygu, dylai pob cynllun marcio, ynghyd â'r papurau a'r tasgau asesu, gael eu gwerthuso gan arbenigwyr nad ydynt wedi ymwneud â'r deunyddiau cyn hynny. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai arbenigwyr cyfle cyfartal ac arbenigwyr iaith, yn ogystal ag arbenigwyr pwnc, adolygu cynlluniau marcio drafft fel rhan o asesiad effaith ar gydraddoldeb.

Dylai asesiadau gael eu cynllunio i wobrwyo cyflawniad cadarnhaol. Dylent wahaniaethu rhwng dysgwyr, a hynny ar sail sgiliau, gwybodaeth am y pwnc a dealltwriaeth yn unig. Bydd graddau hyblygrwydd cynllun marcio yn adlewyrchu natur y pwnc a'r hyn sy'n cael ei asesu. Dylai ymatebion sydd yr un mor ddilys â'i gilydd a gyflwynwyd mewn gwahanol ffyrdd ennill yr un marciau.

Dylai cynlluniau marcio wobrwyo ymatebion priodol sy'n adlewyrchu cefndir amrywiol dysgwyr a'r gwahanol ffyrdd y gallant ddangos yr hyn maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae rhai mathau o dasgau yn cyflwyno heriau penodol. Mae angen i gwestiynau synoptig, er enghraifft, roi ystyriaeth i'r amryfal ffyrdd dilys y gall dysgwyr ateb y cwestiwn. Er enghraifft, gallai cwestiwn ofyn i ddysgwyr nodi patrymau mewn ymddygiad cymdeithasol o'u gwybodaeth am y ffordd yr oedd unigolion a grwpiau wedi cyfrannu at ddigwyddiadau cenedlaethol mewn gwahanol gyfnodau hanesyddol. Efallai y bydd dysgwyr yn rhoi trosolwg cronolegol o gyfres o ddigwyddiadau a rôl y prif gyfranogwyr cyn nodi patrymau. Neu, efallai y byddant yn cyflwyno dadansoddiad o gyfraniadau cyfoes cyn dewis ymddygiad tebyg neu wrthgyferbyniol o gyfnodau eraill.

Mae ffyrdd derbyniol eraill o wneud hyn. Dylai'r cynllun marcio fod yn ddigon manwl i sicrhau bod y sgiliau perthnasol yn cael eu gwobrwyo'n briodol, ac yn ddigon agored i gymhwyso gwahanol ffyrdd o ateb. Gall rhai cwestiynau aml-ran fod wedi'u dylunio'n benodol i brofi dilyniant o syniadau rhesymegol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni ddylai cynlluniau marcio ganiatáu i ateb anghywir i un rhan o gwestiwn ei gwneud yn anodd neu'n amhosibl ennill marciau diweddarach.

Gall adborth gan randdeiliaid ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu asesiadau. Mae asesiadau byw a chynlluniau marcio, fodd bynnag, yn codi'r mater o ddiogelwch. Yn achos banciau eitemau, gall profion ymlaen llaw gan ddefnyddio grwpiau rheoli lywio'r broses o ddatblygu deunyddiau hygyrch. Mewn achosion eraill, bydd adolygiadau 'post hoc' o gwestiynau, cynlluniau marcio a'r addasiadau rhesymol a ganiateir yn helpu i nodi materion yn ymwneud â mynediad ac yn pennu'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

Mae pob un o'r pwyntiau canlynol yn ymdrin ag agwedd ar y gwaith o gynllunio cynlluniau marcio.

Dylai cyrff dyfarnu ystyried y pwyntiau canlynol:

- Sicrhau bod diben pob asesiad yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y cynllun marcio cysylltiedig.

- Sicrhau bod y cynllun marcio yn gwobrwyo amrywiaeth o ymatebion priodol.
- Cynllunio cynlluniau marcio sy'n ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer gwahanol ddulliau ymateb, lle y bo angen. Mae'n bosibl y bydd angen i gynlluniau marcio ar gyfer papurau wedi'u haddasu gynnwys goddefiannau estynedig os bydd gofyn i ddysgwyr wneud mesuriad manwl gywir.
- Dylid anelu at sicrhau bod cynlluniau marcio mor glir a darllenadwy â'r tasgau y maent yn ymwneud â nhw.
- Sicrhau bod y marciau a ddyfernir yn adlewyrchu'r dehongliad o'r geiriau gorchymyn y cytunwyd arno yn llawn ac yn gyson. Er enghraifft, byddai'r ymdrech i gynllunio tasg hygyrch yn cael ei gwastraffu os na fyddai'r cynllun marcio yr un mor hygyrch.

Os caiff marciau eu dyfarnu am dasg fel casglu gwybodaeth gan gyflogeion, dylid bod mor hyblyg â phosibl o ran y ffordd y bydd y dysgwr yn ymgysylltu â'r cyflogeion er mwyn osgoi cyflwyno rhwystrau diangen. Yn yr un modd, os caiff marciau eu dyrannu ar gyfer adroddiad, dylai dull cyflwyno'r adroddiad hwnnw fod yn briodol ar gyfer y pwnc, heb gyflwyno unrhyw rwystrau diangen.

Pan ofynnir i ddysgwyr ddisgrifio rhywbeth, disgwylir iddynt nodi nodweddion yr eitem, y rhinwedd neu'r digwyddiad. Yn yr achos hwn, dylai'r cynllun marcio wobrwyo disgrifiad yn llawn. Ni ofynnir i'r dysgwyr am eglurhad, dadansoddiad na chymhariaeth.

Adolygu ar ôl asesiadau

Mae'r Amodau Cydnabod yn nodi'r canlynol.

D2.2 Rhaid i gorff dyfarnu fonitro cymwysterau a ddarperir ganddo i weld a oes unrhyw nodwedd a allai roi grŵp o ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd benodol o dan anfantais.

D2.3 Pan fydd corff dyfarnu wedi nodi'r cyfryw nodwedd, rhaid iddo wneud y canlynol:
(a) dileu unrhyw anfantais na ellir ei chyfiawnhau
(b) cadw cofnod o unrhyw anfantais y mae'n credu y gellir ei chyfiawnhau gan nodi'r rhesymau pam y gellir cyfiawnhau'r anfantais, yn ei farn ef.

Mae adolygiad ar ôl asesu o'r cwestiynau yn helpu i asesu a oeddent wir yn anwahaniaethol. Gall adolygiad o'r fath fod yn rhan o'r ddolen adborth ar gyfer cynllunio asesiadau yn y dyfodol.

Mae'r defnydd cynyddol o farcio ar lefel eitem yn caniatáu i gyrff dyfarnu werthuso hygyrchedd cwestiynau unigol a rhannau o gwestiynau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae adolygu deilliannau'r cymhwyster yn cynnig dadansoddiad o berfformiad cymharol dysgwyr sydd â'r hawl i gael addasiadau rhesymol, o gymharu â'r garfan gyfan.

6. Technoleg

Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg mewn asesiadau yn cynnig cyfleoedd a heriau ar gyfer mynediad teg. Mae datblygiadau mewn technoleg yn cael effaith ar gynllun a chyflwyno cymwysterau ac asesiadau. Nid yw'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar faterion diogelwch, cyflwyno na chymhwyso sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg mewn asesiadau cenedlaethol, ond yn hytrach, yn canolbwyntio ar y goblygiadau o ran mynediad teg.

Mae cymwysterau'n parhau i esblygu wrth i dechnoleg agor y drws ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Mae graffeg gyfrifiadurol mewn celf a dylunio a systemau electronig mewn cerddoriaeth, er enghraifft, wedi effeithio ar gwmpas ac ymarfer y pynciau hyn. Mae technoleg hefyd yn cynnig ffyrdd newydd o greu a dadgodio testun. Mae angen i gyrff dyfarnu ystyried yn ofalus sut y mae datblygiadau o'r fath yn effeithio ar asesiadau a pha oblygiadau a buddion posibl sy'n codi ar gyfer mynediad teg.

Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd tasgau dylunio a thechnoleg yn gofyn i ddysgwyr ddangos sgiliau 'dylunio a gwneud'. Mae rhan o'r asesiad fel arfer yn canolbwyntio ar sgiliau modelu, braslunio a chreu'r cynigion dylunio. Yna, bydd y dysgwyr yn creu'r cynhyrchion gan ddefnyddio prosesau gweithgynhyrchu a deunyddiau priodol.

Efallai y bydd angen adolygu termau cyfarwydd wrth i dechnoleg ddarparu ffyrdd newydd o gyflawni tasgau ymarferol. Er enghraifft, mae'r asesiad o 'wneud' mewn dylunio a thechnoleg yn draddodiadol wedi gofyn i'r gweithgarwch gael ei wneud â llaw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dysgwyr â sgiliau echddygol cyfyngedig yn gallu cwblhau tasgau 'dylunio a gwneud' dilys gan ddefnyddio cyfarpar cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur a gweithgynhyrchu gyda chymorth cyfrifiadur (CADCAM). Gallai gofynion asesu priodol (e.e. dewis a defnyddio caledwedd a meddalwedd a goddefiannau addas mewn prosiectau CADCAM) ddarparu cydnabyddiaeth briodol a gallent fod yn opsiwn amgen derbyniol yn lle dangos sgiliau llaw mewn rhai cymwysterau.

Fodd bynnag, mewn cymwysterau galwedigaethol, os yw 'gwneud' yn safon cymhwysedd sy'n cael ei hasesu, dylai cyrff dyfarnu ei gwneud yn glir i ba raddau y mae dulliau eraill yn dderbyniol (os o gwbl).

Dylai cyrff dyfarnu ystyried y canlynol:

- a yw technoleg yn cynnig ffyrdd o wneud deunyddiau gorfodol yn hygyrch i ystod ehangach o ddysgwyr
- a fyddai opsiynau yn seiliedig ar dechnoleg yn ymestyn mynediad i grwpiau a allai gael eu heithrio fel arall
- cyflwyno adolygiad systematig o'r ffyrdd y caiff manylebau, asesiadau a ffynonellau/deunyddiau ysgogi eu cyflwyno, gan gadarnhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i wella ansawdd, cyfleoedd a mynediad ehangach
- adolygu pob cynllun asesu i sefydlu a allai technoleg gael ei defnyddio mewn ffyrdd a fyddai'n galluogi mynediad ehangach
- gwerthuso cymharedd dulliau ymateb amgen
- gwerthuso'r amrywiaeth o dechnoleg gynorthwyol sydd ar gael mewn ymarfer bob dydd (rhagfynegi geiriau, testun i lais, adnabod lleisiau ac ati) fel bod modd cyfleu penderfyniadau am briodoldeb y rhain ar gyfer sefyllfa arholiad i ganolfannau mewn da bryd.

Gall papurau arholiad mewn fformat digidol hygyrch leihau'r rhwystrau i ddysgwyr â namau'n ymwneud â defnyddio deunydd argraffedig yn sylweddol. Mae arferion da sylfaenol (a amlinellir yng nghanllawiau UKAAF[7]) yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr â nam ar eu golwg i ddefnyddio papurau arholiad gan ddefnyddio opsiynau PDF safonol neu dechnoleg gynorthwyol trydydd parti.

Mae defnyddio arfer da y cytunwyd arno wrth fformatio deunyddiau yn lleihau effaith newidiadau mewn manylebau systemau ar gyfer cymhorthion golwg isel cyffredin, darllenwyr sgrin a thechnolegau addasol eraill.

Mae angen cynnal gwiriadau hygyrchedd ychwanegol ar bapurau arholiad digidol i ddysgwyr dall, fel yr amlinellir gan ofynion Lefel 2 canllawiau UKAAF ar asesiadau PDF. Yn ogystal, mae rhai cwestiynau y mae'n debygol y bydd angen eu haddasu (e.e. y rheini sy'n cyfeirio at ddeunyddiau ysgogi gweledol).

Bydd papurau arholiad digidol i'r rhai sy'n defnyddio iaith arwyddion, gyda fideos wedi'u cynnwys yn y papur arholiad, yn helpu rhai pobl fyddar neu bobl â nam ar eu clyw.

Mae'r defnydd o dechnoleg mewn asesu (y cyfeirir ato hefyd fel e-asesu) wedi cyflwyno opsiynau a all ymestyn mynediad a chyfle i ddysgwyr a allai fod wedi'u heithrio fel arall. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau'n digwydd yn gyflym ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i oblygiadau mynediad asesiad technoleg estynedig i

[7] www.ukaaf.org/e-file-formats

bob dysgwr. Rhaid i gyrff dyfarnu sicrhau bod technolegau newydd yn cynyddu yn hytrach na lleihau cyfleoedd a bod yn ymwybodol, er y gallai unrhyw ddefnydd penodol o dechnoleg gael effaith gadarnhaol ar un grŵp o ddysgwyr, y gallai hefyd gael effaith negyddol ar grŵp arall. .

Mae llawer o'r egwyddorion a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon yr un mor gymwys i gynllun asesiadau, deunyddiau ysgogi/ffynonellau a chynlluniau marcio ar ffurf electronig. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd a gynigir gan dechnoleg yn codi pwyntiau ychwanegol.

Mae hygyrchedd yn ystyriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw ddatblygiad asesiad technoleg estynedig newydd. Dylai profion hygyrchedd a gwella ansawdd wedi'u hariannu'n briodol gael eu cynnwys yn amserlenni prosiectau.

Mae marcio e-lectron (marcio cyfrifiadurol) a dulliau eraill o asesu estynedig e-asesu yn gymwysiadau technoleg-sefydledig sefydledig. Un fantais bosibl o farcio e-asesu yw y gall aseswyr ymateb yn gyflymach ac yn hyblyg i waith dysgwyr. Mae'n anochel bod materion yn codi wrth i gyrff dyfarnu ystyried posibiliadau asesiad technoleg estynedig. Mae ffyrdd newydd o ryngweithio'n dod yn bosibl, ac mae angen dulliau gweithredu ffres er mwyn cynnal diogelwch a chysondeb. Dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod barn ac anghenion asesu dysgwyr ag anableddau yn cael eu hystyried ar gam cynnar yn y broses a chyn belled ag y bo'n bosibl, fod profion ar sgrin yn adlewyrchu gofynion y defnyddwyr hyn.

Er mwyn manteisio ar yr hyblygrwydd a gynigir gan asesiadau technoleg estynedig, dylai cyrff dyfarnu wneud y canlynol:

- ystyried rhoi cyfle i ganolfannau/dysgwyr newid y ffont, maint y ffont neu'r lliwiau a ddangosir ar y sgrin. Yna gall y modd cyflwyno gael ei deilwra ar gyfer anghenion dysgwyr unigol, ar yr amod nad yw diogelwch yr asesiad yn cael ei beryglu. Efallai y bydd system weithredu'r defnyddiwr yn ei alluogi i wneud newidiadau eraill, e.e. i faint cyrchwr y llygoden neu gyfradd fflachio'r cyrchwr; modd cyferbynnedd uchel. Noder hefyd efallai na fydd y gallu i addasu lliwiau yn golygu bod gwybodaeth yn hygyrch i ymgeiswyr lliwddall, felly rhaid i bob meddalwedd a ddefnyddir fodloni'r cymarebau cyferbynnedd lliwiau gofynnol
- cynnwys testun cyfatebol ar gyfer elfennau graffigol, lle y bo'n bosibl
- ystyried darparu fersiynau ychwanegol o brofion, e.e. fersiynau graffig isel
- ystyried argaeledd fersiynau i gefnogi dysgwyr byddar, lle mae deunydd ysgogi clywedol wedi'i gynnwys e.e. is-deitlau wedi'u cynnwys

- sicrhau, lle nad yw cynnwys ar sgrin yn addas i'w addasu, fod dewisiadau amgen hygyrch a chyfatebol (e.e. profion pensil a phapur) yn cael eu darparu a bod y rhain yn herio dysgwyr i'r un raddfa
- sicrhau bod y dull llywio (yn ôl ac ymlaen os yw dysgwyr yn cael adolygu eu hymatebion) yn syml ac yn reddfol i bob dysgwr Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae asesiad ar sgrin wedi'i ddarparu fel addasiad rhesymol i asesiad a gynhelir ar bapur fel arfer
- bod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal profion hygyrchedd ar fformatau ar sgrin. Mae'n bosibl y bydd defnyddwyr ag anableddau yn wynebu anawsterau nad oedd eraill wedi sylwi arnynt. Bydd treialu yn helpu i sicrhau y gall amrywiaeth o dechnolegau cynorthwyol ryngweithio â'r amgylchedd prawf
- sicrhau bod modd i'r holl ddulliau llywio a rhyngweithio gael eu gweithredu gan lygoden **neu** fysellfwrdd
- darparu 'mannau ymarfer' neu gyfleusterau cyfatebol fel bod pob dysgwr yn gallu ymgyfarwyddo ag arddull, profiad defnyddiwr ac opsiynau personoli'r cyfarpar asesu cyn yr asesiad ei hun
- cadarnhau bod modd i'r holl gynnwys y mae'n rhaid i'r dysgwyr gael gafael arno gael ei ddarllen yn uchel gan feddalwedd testun i lais
- bod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar rai defnyddwyr; rhaid i ddefnyddwyr technoleg gynorthwyol redeg cymwysiadau ychwanegol ochr yn ochr â'r asesiad a sicrhau bod systemau diogelwch yn caniatáu hyn pan fydd ei angen.

Ffynonellau cymorth arbenigol

Mae Cymdeithas Fformatau Hygyrch y Deyrnas Unedig (UKAAF) yn cynnal ymgynghoriadau ac yn cyhoeddi safonau, gan gynnwys Arholiadau Cyffredinol a Galwedigaethol i Ymgeiswyr â Nam ar eu Golwg: Canllawiau Arfer Da i Addaswyr a Chynhyrchwyr
www.ukaaf.org/exams-modification-best-practice

Mae Jisc yn darparu gwasanaeth cynghori ar dechnolegau ar gyfer hygyrchedd a chynhwysiant i staff a myfyrwyr anabl. Mae gwefan Jisc yn darparu adnoddau a chyngor ar gyfer dysgu ac addysgu ym meysydd addysg uwch, addysg bellach a sgiliau, a cholegau arbenigol annibynnol yn y DU. www.jisc.ac.uk/

Mae amrywiaeth eang o ganllawiau ar gael er mwyn sicrhau bod adnoddau a gweithgareddau ar-lein mor hygyrch â phosibl. Gallai cyfeiriadau at safonau priodol gynnwys y canlynol.

- Menter Hygyrchedd y We (gweler www.w3.org/WAI/) a Chanllawiau Cynnwys Hygych ar y We (WCAG 2.1 / ISO/IEC 40500:2012).
- ISO 9241-20:2009 Mae canllawiau hygyrchedd ar gyfer cyfarpar a gwasanaethau technoleg gwybodaeth/cyfathrebu (TGCh) yn gymwys i galedwedd a meddalwedd a'u nod yw gwella hygyrchedd wrth ddefnyddio' dechnoleg yn y gwaith, yn y cartref ac mewn amgylcheddau symudol a chyhoeddus.
- BS EN ISO 9241-151:2008 Ergonomeg rhyngweithio rhwng bodau dynol a systemau BS EN ISO 9241-151 yw'r safon ryngwladol sy'n darparu canllawiau ar yr elfennau o gynllun rhyngwynebau defnyddwyr gwe ar gyfer meddalwedd sy'n canolbwyntio ar fodau dynol, gyda'r nod o wella defnyddiadweydd.
- BS 18477:2010 Darparu gwasanaethau cynhwysol. Mae BS 18477 yn pennu'r gweithdrefnau critigol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cynhwysol ar gael ac yn hygyrch i bob defnyddiwr yn gyfartal, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau personol.
- BS 7000-6:2005 Systemau rheoli cynllunio. Rheoli cynllunio cynhwysol. BS 7000 Rhan 6 yw'r Safon Brydeinig sy'n rhan o gyfres BS7000 ar Systemau Rheoli Cynllunio ac mae'r rhan hon yn darparu canllawiau ar reoli cynllun cynhwysol ar lefel sefydliadau a phrosiectau fel ei gilydd, er bod y dull gweithredu cynhwysgol yn cwmpasu'r byd busnes a rheoli yn ei gyfanrwydd.
- BS 8878: 2010 Cod ymarfer hygyrchedd ar y we. BS 8878:2010 yw'r safon Brydeinig gyntaf i amlinellu fframwaith ar gyfer hygyrchedd ar y we wrth gynllunio neu gomisiynu cynhyrchion y we. Mae'n darparu canllawiau i bob sector ar fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n nodi bod yn rhaid i gynhyrchion ar y we fod yn hygyrch i bawb.

O fis Medi 2018, mae Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i rai darparwyr addysg sicrhau bod llwyfannau ar-lein, systemau a dogfennau yn bodloni safonau hygyrchedd y we[8] a allai gynnwys papurau blaenorol a systemau e-asesu ar-lein y maent yn eu defnyddio.

Os bwriedir i brofion ar-lein gysylltu â systemau eraill, e.e. llwyfannau cyflwyno cynnwys neu ddadansoddi data, awgrymir yn gryf y dylid ymgyfarwyddo â safonau IMS Global[9].

[8] https://www.gov.uk/guidance/accessibility-requirements-for-public-sector-websites-and-apps
[9] www.imsglobal.org/

Gellir defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau mewnbynnu ac allbynnu ar gyfer cynnwys a ddylunnir i gydymffurfio â chanllawiau a manylebau hymgyrchedd y we. Mae safonau hygyrchedd y we rhyngwladol yn nodi'n glir sut i sicrhau bod adnoddau ar-lein yn hygyrch. Os dilynir y safonau, ni fydd angen i ddatblygwyr profion ar sgrin fod yn arbenigwyr yn yr amrywiaeth eang o dechnolegau sydd ar gael i bobl anabl er mwyn cael mynediad at dechnoleg gwybodaeth.

Ymhlith yr enghreifftiau o wybodaeth ddefnyddiol ac astudiaethau achos y gellir eu gweld y tu allan i fyd addysg, mae'r canlynol:

- AbilityNet (www.abilitynet.org.uk), elusen genedlaethol sy'n helpu oedolion a phlant anabl i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd drwy addasu eu technoleg.
- y BBC yn www.bbc.co.uk/guidelines/futuremedia/accessibility/
- British Computer Association of the Blind (BCAB) yn www.bcab.org.uk/
- Consortiwm y We Fyd-eang (W3C) yn at www.w3.org/.
- gwasanaethau digidol y Llywodraeth yn https://www.gov.uk/guidance/accessibility-requirements-for-public-sector-websites-and-apps

7. Rhestr wirio

Mae'r rhestr wirio hon yn tynnu'r prif egwyddorion at ei gilydd er mwyn cynorthwyo cyrff dyfarnu wrth iddynt ddatblygu cymwysterau, deunyddiau asesu a chynlluniau marcio.

Yng nghyd-destun y canllaw hwn, cynghorir cyrff dyfarnu i sicrhau'r canlynol cyn cyflwyno unrhyw fanyleb:

- bod yr holl destun yn rhydd rhag amwysedd a disgwyliadau cudd
- nad oes unrhyw ddeunydd diangen wedi'i gynnwys a allai gyflwyno rhwystrau mynediad i grwpiau penodol o bobl â nodweddion gwarchodedig
- bod unrhyw feini prawf asesu sy'n cyflwyno rhwystr i grŵp penodol wedi'u cyfiawnhau
- bod teitlau, cynnwys gorfodol, cynnwys dewisol (lle y bo ar gael) a'r cynllun asesu yn berthnasol ac yn hygyrch i ddysgwyr o fewn ystod cyrhaeddiad y cymhwyster
- bod y cymhwyster cyffredinol yn gytbwys ac yn gydlynus o safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

Yng nghyd-destun y canllaw hwn, cynghorir cyrff dyfarnu i sicrhau'r canlynol cyn iddynt gymeradwyo unrhyw asesiad:

- bod yr holl destun wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir a chyson
- bod y cyfarwyddyd yn glir a'i bod yn hawdd gwahaniaethu rhwng y cyfarwyddyd a'r cwestiynau
- dim ond deunydd ffynhonnell hanfodol a pherthnasol sydd wedi'i gynnwys
- bod yr holl luniau, tablau a deunydd graffig yn cael eu cyflwyno mewn ffordd glir, drefnus a rhesymegol sy'n cydymffurfio ag arferion gorau o ran hygyrchedd
- bod yr holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â thasg benodol yn cael eu cadw'n agos at ei gilydd ac wedi'u cyflwyno mewn ffordd resymegol
- y manteisiwyd yn llawn ar botensial pob rhan o'r asesiad i gynnig mynediad teg
- bod pob eitem yn gwneud cyfraniad sylweddol at gydbwysedd y cymhwyster cyffredinol
- na pherir unrhyw dramgwydd o ran unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyfraith cydraddoldeb Gogledd Iwerddon gan y defnydd o iaith neu bynciau amhriodol

- yn ddelfrydol, bod y ffeil ddigidol a ddefnyddiwyd i greu fersiwn argraffedig wedi'i thagio at ddibenion hygyrchedd a bod modd ei defnyddio fel ag y mae gyda thechnoleg gynorthwyol.

Cynghorir cyrff dyfarnu i sicrhau'r canlynol cyn cymeradwyo unrhyw gynllun marcio neu set o feini prawf asesu:

- bod yr holl destun yn ddarllenadwy, yn eglur ac yn ddilys mewn perthynas ag amcanion yr asesiad
- bod y cynllun marcio yn glir ac y gellir ei ddarllen a'i gymhwyso'n hawdd ac yn gyson
- bod arbenigwyr iaith a chyfle cyfartal wedi'u cynnwys ynghyd ag arbenigwyr pwnc ar gam cynnar yn ystod y broses ddatblygu
- bod y cynllun marcio wedi'i werthuso gan arbenigwyr nad ydynt wedi ymwneud â chamau cynharach y broses ddatblygu
- bod y cynllun marcio yn adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol y gall dysgwyr ddangos cyrhaeddiad a'i fod yn amlinellu natur ac ystod yr ymatebion sy'n debygol o fod yn haeddu credyd.

Mae'r daflen wirio enghreifftiol yn Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o rai o'r egwyddorion a'r pwyntiau cynllunio yn y canllawiau hyn. Gallai cyrff dyfarnu ddefnyddio'r daflen wirio yn ystod y broses o ddatblygu safonau, manylebau ac asesiadau fel rhan o'u trefniadau sicrhau ansawdd.

Atodiad 1: Taflen wirio enghreifftiol

Gellid defnyddio taflen wirio fel yr enghraifft isod ar y cyd ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dylid mynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn ystod y camau drafftio cynnar ac eto'n ddiweddarach pan fydd y cymhwyster yn fwy cyflawn. Cyn cymeradwyo unrhyw waith datblygu neu weithgarwch monitro a gwerthuso, dylid cadarnhau'r canlynol:

Corff dyfarnu:	**Teitl y cymhwyster:**			**Dyddiad gwirio:**
· Gwirio'r eitem	**Datblygu'r fanyleb**	**Datblygu'r deunyddiau asesu enghreifftiol**	**Datblygu'r asesiad byw**	**Monitro a gwerthuso parhaus (gan gynnwys dadansoddi Data)**
Mae'r cymhwyster cyffredinol yn gytbwys ac yn gydlynus o safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.				
1. Mae'r teitlau a'r cynnwys gorfodol yn berthnasol i ddysgwyr o fewn ystod cyrhaeddiad y cymhwyster.				
2. Mae unrhyw ofyniad am wybodaeth a phrofiad blaenorol wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n hanfodol yn unig.				
3. Mae unrhyw lwybrau dewisol yr un mor heriol a, chyn belled ag sy'n bosibl, yn hygyrch i bob dysgwr.				
4. Mae'r holl destun wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir a chyson.				

5. Mae'r testun yn rhydd rhag amwysedd, disgwyliadau cudd neu ddeunydd diangen a allai beri rhwystrau i grwpiau penodol neu bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.				
6. Mae pob eitem yn gwneud cyfrnaiad sylweddol at gydbwysedd y cymhwyster cyffredinol.				
7. Mae anghenion pob grŵp a phob nodwedd warchodedig wedi'u hystyried.				
8. Ni pherir unrhyw dramgwydd o ran unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyfraith cydraddoldeb Gogledd Iwerddon gan y defnydd o iaith neu bynciau amhriodol.				
9. Mae arbenigwyr iaith a chyfle cyfartal wedi'u cynnwys ynghyd ag arbenigwyr pwnc ar gam cynnar yn ystod y broses ddatblygu.				
Caiff cydraddoldeb ei hyrwyddo yn y gwaith o gynllunio ac adolygu'r asesiad.				
10. Mae'r testun a'r iaith a ddefnyddir yn cael eu gwirio i leihau cymaint â phosibl ar y posibilrwydd y byddant yn cael eu camddehongli. Mae'r ffeil ddigidol wreiddiol yn gallu cael ei defnyddio gan dechnolegau cynorthwyol heb fod unrhyw rwystrau o ran llywio, trefn ddarllen na bod dirywiad gweledol wrth chwyddo/ail-lifo'r cynnwys.				
11. Mae'r holl destun yn ddarllenadwy, yn eglur ac yn ddilys mewn perthynas ag amcanion yr asesiad.				

12. Mae'r cyfarwyddyd yn glir ac mae'n hawdd gwahaniaethu rhwng y cyfarwyddyd a'r cwestiynau.				
13. Dim ond deunydd ffynhonnell hanfodol a pherthnasol sydd wedi'i gynnwys.				
14. Mae'r holl luniau, tablau a deunydd graffig yn cael eu cyflwyno mewn ffordd glir, drefnus a rhesymegol sy'n cydymffurfio ag arferion gorau o ran hygyrchedd.				
15. Mae'r ffordd y mae'r deunyddiau asesu wedi'u cyflwyno a'u cynllunio wedi'i gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio gyda thechnoleg gynorthwyol (fel darllenwyr sgrin poblogaidd).				
16. Mae'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â thasg benodol yn agos at ei gilydd ac wedi'u cyflwyno mewn ffordd resymegol.				
17. Manteisiwyd yn llawn ar botensial pob rhan o'r asesiad i gynnig mynediad teg.				
18. Pennwyd amrywiaeth o ddulliau ymateb neu nodwyd eu bod yn dderbyniol.				
19. Mae unrhyw feini prawf asesu sy'n cyflwyno rhwystr i grwpiau penodol neu bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wedi'u cyfiawnhau.				
20. Cydnabyddir arferion gweithio cyfredol.				
21. Mae'r asesiad yn caniatáu i ymgeiswyr ddangos eu sgiliau gan ddefnyddio technoleg gynorthwyol.				
22. Mae'r cynllun marcio yn glir a gellir ei ddarllen a'i gymhwyso'n hawdd ac yn gyson.				

23. Mae'r cynllun marcio yn adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol y gall dysgwyr ddangos cyrhaeddiad ac yn amlinellu natur ac ystod yr ymatebion sy'n debygol o fod yn haeddu credyd.				
24. Mae'r cynllun marcio wedi'i werthuso gan arbenigwyr nad ydynt wedi ymwneud â chamau cynharach y broses ddatblygu.				
Mae gwaith adolygu, monitro a dadansoddi parhaus yn defnyddio tystiolaeth i gefnogi newidiadau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn lleihau'r angen am addasiadau.				
25. Mae tystiolaeth o berfformiad cymharol wedi'i dadansoddi a'i defnyddio i lywio'r gwaith adolygu.				
26. Cedwir cofnodion o berfformiad cymharol er mwyn asesu effaith unrhyw newidiadau.				

Atodiad 2: Taflen gynhwysiant enghreifftiol

Dyma enghraifft i ddangos sut y gellir nodi rhwystrau o fewn manyleb. Ni ddylid ei hystyried fel dadansoddiad cywir o fanyleb benodol.

Astudiaethau'r cyfryngau

Amcanion asesu		**Pwysoliadau**
AA1	Dwyn i gof, dewis a chyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynhyrchion y cyfryngau a'r cyd-destunau o ran eu cynhyrchu a'u defnyddio.	20%
AA2	Dadansoddi ac ymateb i destunau/pynciau'r cyfryngau, ac ymateb iddynt, gan ddefnyddio cysyniadau allweddol y cyfryngau a therminoleg briodol.	20%
AA3	Dangos sgiliau ymchwilio, cynllunio a chyflwyno.	30%
AA4	Llunio a gwerthuso eu cynhyrchion eu hunain gan ddefnyddio sgiliau creadigol a thechnegol.	30%

Mae'r amcanion asesu yn asesu galluoedd canlynol y dysgwyr

	AA1	**AA2**	**AA3**	**AA4**
Gweld	Na	Ie*	Na	Na
Siarad	Na	Na	Na	Na
Clywed	Na	Na*	Na	Na
Darllen yn annibynnol	Na	Na	Na	Na
Dangos sillafu a gramadeg	Na	Ie	Ie	Ie
Ysgrifennu â llaw	Na	Na	Na	Na
Lluniadu/braslunio â llaw	Na	Na	Na	Ie
Trin a thrafod â llaw	Na	Na	Na	Na*
Perfformio'n gorfforol	Na	Na	Na	Na
Gweithio mewn tîm	Na	Na	Na	Na

* Gellir rhoi canllawiau pellach ar ôl i'r dadansoddiad cychwynnol gael ei gynnal.

A yw'r asesiadau'n caniatáu defnyddio'r trefniadau mynediad hyn?

Trefniant mynediad	Ydynt/Nac ydynt	Elfen
Defnyddio iaith arwyddion Prydain	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Amser ychwanegol	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Siaradwr byw	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Papurau cwestiynau wedi'u haddasu	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Darllen yn uchel	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Darllenwyr	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Peniau darllen	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Cynorthwywyr ymarferol	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Ysgrifenyddion	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Adnabod lleferydd	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Testun i lais	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Trawsgrifiadau	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol
Proseswyr geiriau	Ydynt	Pob asesiad ysgrifenedig ac ymarferol

(Noder: Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o drefniadau mynediad.)

Grwpiau y mae rhan o'r asesiad yn peri rhwystr iddynt

Bydd ymdrin â thestun argraffedig a ffurfiau cyfryngau gweledol eraill, lle bydd angen gwerthfawrogi'r effaith neu'r eitem weledol, yn peri rhwystr i rai myfyrwyr sydd â nam ar eu golwg.

Bydd rhai myfyrwyr sydd â nam ar eu clyw neu nam corfforol yn wynebu cyfyngiadau o ran y cyfryngau y byddant yn gallu eu dewis.

Cyfiawnhad

Mae'r meini prawf pwnc TGAU ar gyfer y pwnc hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr 'ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o dri gwahanol fath o gyfryngau (gan gynnwys o leiaf un ffurf argraffedig ac un ffurf glyweledol)'. Rhaid i fanylebau TGAU ar gyfer y pwnc hwn gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Lliniaru/cyngor

Er ei bod yn bosibl y bydd cyfyngiadau ar rai myfyrwyr anabl o ran y cyfryngau y byddant yn gallu eu dewis, mae'r dewis eang o ffurfiau'r cyfryngau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cyfryngau ar y we, yn golygu y dylent allu cael mynediad i'r asesiad. Gellir defnyddio cynorthwywyr ymarferol i helpu'r rheini â nam corfforol, ond os bydd y cynorthwyydd yn 'adeiladu'r cynnyrch' (AA4) ni chaniateir i'r myfyriwr ennill marciau am y sgil hon.

Mae angen papurau cwestiynau wedi'u haddasu, technolegau cynorthwyol eraill a chanllawiau gofalus er mwyn galluogi myfyrwyr anabl i gael mynediad i'r cymhwyster hwn.

Atodiad 3: Dysgwyr y mae angen trefniadau mynediad arnynt

Darperir trefniadau mynediad ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau hirdymor neu dymor byr neu anafiadau dros dro. Rhaid i drefniadau mynediad:

- gael eu cymeradwyo cyn asesiad
- caniatáu mynediad i asesiad heb roi mantais annheg
- adlewyrchu ffordd arferol y dysgwr o weithio*
- peidio â pheryglu meini prawf asesu'r fanyleb dan sylw.

Gwneir trefniadau mynediad ar sail anghenion dysgwr unigol.
Rhaid i ganolfannau gael tystiolaeth o anghenion dysgwr er mwyn cefnogi trefniant mynediad. (*Gall fod yn heriol i ganolfannau bennu'r ffordd arferol o weithio erbyn y dyddiad cau ym mis Ionawr, os ymunodd y dysgwr ym mis Medi, felly mae angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl).

Enghreifftiau lle gallai fod angen trefniadau mynediad ar ddysgwyr

Enghreifftiau yn unig yw'r canlynol. Mae'n bosibl y bydd anghenion rhai dysgwyr yn berthnasol i fwy nag un categori.

Anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
Mae'n bosibl y bydd angen cyfnodau gorffwys dan oruchwyliaeth, goruchwyliaeth ar wahân neu drefniadau llety amgen ar ddysgwyr sydd â rhai anghenion ymddygiadol, emosiynol, corfforol neu gymdeithasol. Lle mae gan y dysgwyr hyn anableddau dysgu hefyd, mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol arnynt ac, yn achos namau mwy dwys, darllenwyr a/neu ysgrifenyddion.

Cyfathrebu a rhyngweithio
Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio broblemau â'u sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig. Efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio dyfais fel prosesydd geiriau neu, mewn amgylchiadau penodol, gael cymorth gan ysgrifennydd i ysgrifennu ar eu rhan. Mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol arnynt i ddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar.

Gwybyddiaeth a dysgu
Mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol ar ddysgwyr ag anawsterau dysgu ar gyfer asesiadau wedi'u hamseru. Mewn achosion priodol, mae'n bosibl y bydd angen cymorth darllen neu ysgrifennu arnynt hefyd.

Anghenion synhwyraidd a chorfforol
Mae'n bosibl y bydd angen amser ychwanegol, defnydd o brosesydd geiriau, ac ysgrifennydd a/neu iaith arwyddion a dehongli ar ddysgwyr ag anghenion synhwyraidd a chorfforol. Efallai y bydd angen iddynt gael papurau wedi'u haddasu. Efallai y bydd angen iddynt gael cynorthwyydd ymarferol. Efallai y bydd angen iddynt gael darllenydd neu Addasydd Iaith Lafar hefyd.

Atodiad 4: Deddf Cydraddoldeb 2010 ac addasiadau rhesymol

Addasiadau rhesymol a dysgwyr ag anableddau

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu wneud addasiadau rhesymol ac osgoi trin dysgwyr ag anableddau yn anffafriol. Bydd y ddyletswydd i gyrff dyfarnu wneud addasiad rhesymol yn gymwys pan fyddai trefniant asesu yn rhoi person anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â rhywun nad yw'n anabl.

Mae Adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel '...nam corfforol neu feddyliol... [sy'n cael] effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar... allu [rhywun] i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'. Mae astudio a gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg wedi'u cynnwys yn y diffiniad o weithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae Adran 53 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â'r ddyletswydd a roddir ar gyrff dyfarnu mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol. Caiff cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol gymhwyso safonau cymhwysedd i berson anabl. Mae Adran 54 o'r Ddeddf yn rhoi dehongliad ychwanegol.

Caiff safon cymhwysedd ei diffinio fel safon academaidd, feddygol neu safon arall a gymhwysir at ddibenion penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio. Nid yw cymhwyso safon cymhwysedd i berson anabl yn wahaniaethu ar sail anabledd oni bai ei fod yn wahaniaethu yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (yn ymwneud â gwahaniaethu anuniongyrchol).

Mae Adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin â'r ddyletswydd a roddir ar gyrff dyfarnu mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr bennu lle nad yw cyrff dyfarnu o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol. Mewn rhai achosion, ni fydd yn rhesymol i addasiadau gael eu gwneud i amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hynny yn debygol o danseilio effeithiolrwydd y cymhwyster wrth roi arwydd o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr dysgwyr. Mae gan y Rheoleiddiwr, o dan adran 96, y pŵer i bennu lle na chaniateir gwneud addasiadau rhesymol.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn gysyniad allweddol yn y ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn diffinio ac yn cydnabod gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd os bydd dysgwr yn cael ei drin yn llai ffafriol na dysgwr arall oherwydd nodwedd warchodedig. Yn gyffredinol, er mwyn dwyn achos yn honni gwahaniaethu uniongyrchol mae'n rhaid cyflwyno cymaryddion, e.e. enghreifftiau lle mae dysgwyr eraill nad oes ganddynt y nodweddion gwarchodedig wedi cael eu trin yn fwy ffafriol. Enghraifft bosibl o wahaniaethu uniongyrchol yw lle mae menyw yn cael ei thalu llai na chydweithiwr gwrywaidd am yr un swydd neu swydd gyfatebol.

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd darpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael eu cymhwyso yn yr un ffordd i bawb, ond yn cael yr effaith o roi dysgwyr â nodweddion gwarchodedig perthnasol dan anfantais benodol. Mae'r cysyniad o 'nodau dilys' yn berthnasol wrth ystyried gwahaniaethu anuniongyrchol. Gallai cynnal safonau neu sicrhau iechyd a diogelwch fod yn nod dilys. Mae cynnal safonau yn cwmpasu materion fel arholiadau.

Gall fod achosion lle mae modd cyfiawnhau'r ffordd y caiff darpariaeth, maen prawf neu arfer eu cymhwyso, fel modd cymesur o gyflawni nod dilys. Er enghraifft, os bydd angen i rywun redeg fel rhan o arholiad (o gymharu â symud yn gyflym heb gymorth trydydd parti), a bod modd cyfiawnhau'r gofyniad hwn, yna mae'n bosibl nad oes dim y gallwch ei wneud i liniaru'r mater sy'n effeithio ar y person a'i allu i fodloni'r safon. Mae'n debygol y byddai'n anodd darbwyllo barnwr bod angen arholi'r pwnc mewn ffordd arall.

Mae gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn digwydd lle caiff dysgwr anabl ei drin yn anffafriol a lle na ellir dangos bod hyn yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Yn yr achosion hyn, nid oes angen cymaryddion. Caiff anabledd ei ddiffinio fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol'. Mewn achosion sy'n ymwneud â gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd, mae gwybodaeth yn elfen allweddol. Mae'n rhaid eich bod yn gwybod, neu fod disgwyl rhesymol eich bod yn gwybod, am fodolaeth yr anabledd. Mae hyn yn gymwys i anabledd yn unig, ac nid y nodweddion gwarchodedig eraill.

Addasiadau rhesymol

Mae dyletswydd o dan y Ddeddf i wneud addasiadau rhesymol. Mae tri gofyniad mewn perthynas ag addasiadau rhesymol.

1. Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi anfantais sylweddol i berson anabl er enghraifft, (o gymharu â rhywun nad yw'n anabl) sy'n deillio o ddarpariaeth, maen prawf neu arfer.
2. Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi neu leihau anfantais sylweddol i berson anabl er enghraifft, (o gymharu â rhywun nad yw'n anabl) sy'n deillio o nodwedd gorfforol.
3. Dylech ddarparu cymhorthydd ategol, megis technoleg gynorthwyol, i osgoi anfantais sylweddol i berson anabl er enghraifft, (o gymharu â rhywun nad yw'n anabl).

Mae darparwyr ar y 'rheng flaen' o ran sicrhau na wahaniaethir yn erbyn dysgwyr. Gall canolfannau fod yn atebol yn uniongyrchol am wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'n arfer da i gyrff dyfarnu sicrhau bod canolfannau'n ymwybodol o ofynion y Ddeddf. Mae adran C2.3 (h) o'r Amodau Cydnabod yn 'ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gyflenwi'r cymhwyster sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu yn unol â Chyfraith Cydraddoldeb'.

Mae cyrff dyfarnu sy'n methu â sicrhau bod ei gymwysterau yn gynhwysol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig ar wahân i anabledd yn wynebu'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol. Mae'r cysyniad hwn o addasiadau yn hollbwysig wrth roi sail gyfreithiol i gyrff dyfarnu; dylent, er enghraifft, osgoi stereoteipio ar sail rhyw mewn cwestiynau arholiad neu astudiaethau achos yn seiliedig ar fedydd, er enghraifft. Mae hyn wedi'i gwmpasu gan y prawf cymesuredd yn y Ddeddf.

Atodiad 5: Rhestr Termau

Defnyddir amrywiaeth eang o dermau wrth asesu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Mae i bob un ystyr penodol yng nghyd-destun a strwythur cymwysterau penodol.

Achrediad
Y broses a ddefnyddir gan y rheoleiddwyr i gadarnhau bod cymhwyster a'r fanyleb gysylltiedig yn cydymffurfio â'r meini prawf rheoleiddio.

Addasiad rhesymol
Cam rhesymol a gymerir i leihau neu ddileu effeithiau anfantais sylweddol i ddysgwr anabl. Addasiad rhesymol ar gyfer person penodol a allai fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw.

Amcan asesu
Un o gyfres o ddatganiadau mewn manyleb sy'n disgrifio ffocws yr asesiad.

Arholiad
Cyfanswm yr asesiad y mae'n rhaid i ddysgwr ymgymryd ag ef er mwyn ennill cymhwyster. Gall arholiad gynnwys sawl elfen asesu wahanol.

Asesiad
Y broses o wneud dyfarniadau ynghylch y graddau y mae gwaith dysgwyr yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer cymhwyster, neu uned, neu ran o uned. Gall asesiad gael ei ddisgrifio hefyd fel *arholiad, deunyddiau asesu, prawf.*

Asesiad allanol
Asesiad ar ffurf papur arholiad, papur cwestiynau neu asesiad ysgrifenedig arall, a gaiff ei sefyll o dan amodau arholiad fel arfer.

Asesiad dan reolaeth
Asesiad a gynhelir lle nad yw amodau arholiadau llawn yn gymwys. Y corff dyfarnu sy'n pennu'r rheolaethau sy'n gymwys i'r ffordd y caiff y gwaith ei osod, yr amodau ar gyfer gwneud y gwaith a'r ffordd y caiff ei asesu.

Asesiad mewnol
Mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r term 'asesiad mewnol' i gwmpasu pob opsiwn sy'n seiliedig yn y ganolfan neu sydd wedi'i gyfeirio gan ganolfan. Mae hyn yn cynnwys gwaith cwrs, profion ymarferol, asesiadau dan reolaeth, portffolios,

prosiectau ac asesiadau na chânt eu harholi (a gaiff eu sefyll fel arfer o dan lefelau rheolaeth is nag asesiadau allanol neu ysgrifenedig).

Aseswr
Prif arholwr ac uwch arholwr, arholwr, marciwr cyffredinol, prif gymedrolwr ac uwch gymedrolwr, cymedrolwr, dilyswr mewnol neu ddilyswr allanol.

Cyfarwyddyd
Y cyfarwyddyd ysgrifenedig (fel arfer) sy'n dweud wrth ddysgwr sut i fynd i'r afael ag asesiad. Dylid dweud wrth ddysgwyr am dalu sylw i'r cyfarwyddyd ym mhob asesiad.

Cymhwyster
Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos cymhwysedd neu gyflawniad. Gallai cymhwyster yn ei gyfanrwydd gynnwys modiwlau, elfennau neu unedau y gellir eu dyfarnu ar wahân.

Cynllun asesu
Y dulliau a'r prosesau (a'r tasgau lle y bo'n briodol) i'w defnyddio i asesu cymhwyster neu uned.

Cynllun marcio
Manylion am y ffordd y dyfernir marciau mewn perthynas â thasg asesu benodol. Fe'u gelwir hefyd yn feini prawf marcio, meini prawf asesu neu feini prawf perfformiad.

Cynnwys
Cwmpas cymhwyster, rhaglen, modiwl, uned neu elfen arall, wedi'i fynegi fel y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth neu'r maes cymhwysedd yr ymdrinnir ag ef.

Deilliannau dysgu
Yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwr allu ei wneud neu ei wybod dan amgylchiadau penodol.

Deunydd ffynhonnell
Deunydd o ffynonellau allanol y gwahoddir dysgwyr i gyfeirio atynt er mwyn ymateb i dasg.

Deunydd ysgogi
Deunyddiau a gynhyrchwyd gan aseswyr ac sydd wedi'u cynnwys mewn tasg i annog dysgwyr i ddangos eu galluoedd o ran y pynciau.

Dibynadwyaeth
Y graddau y mae canlyniadau asesiad yn fesuriad cywir o'r galluoedd a bennwyd yn y meini prawf asesu a ddangoswyd gan ddysgwyr.

Dilysrwydd
Pa mor addas at ei ddiben yw adnodd asesu neu gynllun.

Dyfarnu
Y broses o bennu canlyniadau a/neu raddau dysgwyr ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

Dysgwr
Disgybl, myfyriwr neu ymgeisydd.

Elfen
Rhan ar wahân o gymhwyster sydd:
(a) yn canolbwyntio ar feysydd penodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a asesir ar gyfer y cymhwyster
(b) â set benodol o feini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad dysgwyr.
Cyfeirir at elfen y gellir ei hardystio yn ei rhinwedd ei hun fel 'Uned' (gweler y diffiniad isod).

Geiriau gorchymyn
Y geiriau a ddefnyddir mewn cyfarwyddiadau i ddysgwyr er mwyn ennyn ymateb.

Gwaith cwrs
Tasgau a gwblheir gan y dysgwr yn ystod ei gwrs astudio, ac a asesir yn erbyn meini prawf a nodir yn glir yn y fanyleb.

Hygyrchedd
Rhinwedd o fod yn hawdd i bobl ag anabledd ei gyrraedd, ei ddefnyddio neu gael mynediad ato. Ar gyfer ffeiliau digidol, e-asesiadau ac adnoddau ar-lein, mae hygyrchedd yn golygu bod pobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol yn gallu amgyffred yr adnoddau, eu deall, eu llywio a rhyngweithio â nhw. Er mwyn cyflawni hyn, efallai y bydd unigolion yn defnyddio technolegau cynorthwyol, adnoddau mewnol neu osodiadau ar eu cyfrifiadur neu ddyfais.

Iaith gludo
Yr iaith a ddefnyddir i osod asesiad (o gymharu â'r iaith dechnegol sy'n cael ei hasesu).

Manyleb
Disgrifiad cyflawn (gan gynnwys yr agweddau gorfodol a dewisol) o gynnwys, trefniadau asesu a gofynion perfformiad cymhwyster.

Meini Prawf Asesu
Y gofynion y mae angen i ddysgwyr eu bodloni er mwyn llwyddo (neu ennill gradd benodol) mewn cymhwyster neu uned, neu ran o uned.

Papurau wedi'u haddasu
Papurau a gaiff eu haddasu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol, e.e. drwy gynyddu maint y ffont neu gynhyrchu fersiwn Braille.

Portffolio
Casgliad o dystiolaeth a gyflwynir i'w asesu.

Prosiect
Darn o waith estynedig a wneir gan ddysgwr i'w asesu.

Rheoleiddwyr
Y rheoleiddwyr perthnasol at ddibenion y ddogfen hon yw;
(a) Y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA Regulation) yng Ngogledd Iwerddon
(b) Cymwysterau Cymru yng Nghymru

Safon cymhwysedd
Safon academaidd, feddygol neu safon arall a gymhwysir gan neu ar ran corff cymwysterau at ddiben penderfynu a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio.

Corff dyfarnu
Corff sy'n dyfarnu cymwysterau. Fe'i gelwir hefyd yn gorff arholi, bwrdd arholi.

Technolegau cynorthwyol
Dyfeisiau peirianyddol neu electronig sy'n helpu **unigolion** ag anghenion penodol i oresgyn cyfyngiadau.

Trefniadau mynediad
Trefniadau y cytunir arnynt cyn asesiad sy'n galluogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro i gael mynediad i'r asesiad. Maent yn galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid lefel her yr asesiad. Byddai trefniant mynediad sy'n

diwallu anghenion dysgwr anabl yn 'addasiad rhesymol' ar gyfer y dysgwr penodol hwnnw.

Uned
Y rhan leiaf o gymhwyster sy'n gallu cael ei hardystio yn ei rhinwedd ei hun.

Ystyriaeth arbennig
Addasiad i farc neu radd ymgeisydd er mwyn adlewyrchu salwch neu anaf dros dro neu anhwylder arall ar adeg yr asesiad.

Atodiad 6: Geiriau gorchymyn

Mae cyrff dyfarnu wedi paratoi amryw restrau termau ar gyfer y geiriau gorchymyn a ddefnyddir mewn asesiadau. Mae'r diffiniadau isod yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn y rhestrau termau hyn.

Defnyddir yr un geiriau gorchymyn yn aml mewn amrywiaeth eang o bynciau gwahanol. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio unrhyw ddiffiniadau cyffredin gan fod gan bynciau eu traddodiadau a'u disgwyliadau eu hunain.

Defnyddiwch eiriau gorchymyn yn gyson ac yn gywir. Dylid osgoi geiriau sy'n ennyn atebion annigonol, un gair. Dylid defnyddio geiriau gorchymyn gwahanol i annog gwahanol fathau o ymatebion, yn hytrach nag er mwyn ceisio sicrhau amrywiaeth.

Adolygu	edrych ar wybodaeth
Amcangyfrif	pennu gwerth bras
Amlinellu	nodi'r prif nodweddion
Archwilio	edrych yn fanwl ar rywbeth
Asesu	llunio barn hyddysg
Awgrymu	cyflwyno achos bosibl
Cymhwyso	rhoi ar waith mewn ffordd gydnabyddedig
Beirniadu	asesu gwerth yn erbyn disgwyliadau amlwg
Crynhoi	nodi'r prif bwyntiau heb fynd i fanylder
Cyfiawnhau	ategu achos â thystiolaeth
Cyfrifo	gweithio allan beth yw gwerth rhywbeth
Cymharu	nodi tebygrwydd
Cysylltu	dangos cysylltiadau rhwng eitemau
Cwblhau	gorffen tasg drwy ychwanegu at wybodaeth a roddwyd
Dadansoddi	gwahanu gwybodaeth i gydrannau ac adnabod eu nodweddion
Dadlau	cyflwyno achos rhesymol
Dadlau o blaid ac yn erbyn	cyflwyno gwahanol safbwyntiau ar fater
Datblygu	bwrw ymlaen neu adeiladu ar wybodaeth a roddwyd
Datgan	mynegi mewn termau clir
Dehongli	trosi gwybodaeth i ffurf y gellid ei hadnabod
Didwytho	dod i gasgliad o'r wybodaeth a ddarparwyd
Diffinio	nodi ystyr

Disgrifio	nodi nodweddion
Egluro	nodi dibenion neu resymau
Enghreifftio	rhoi enghreifftiau sy'n egluro
Gwerthuso	beirniadu gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael
Gwneud sylwadau	cyflwyno barn hyddysg
Gwrthgyferbynu	nodi gwahaniaethau
Nodi	enwi neu nodweddu mewn ffordd arall
Profi	dangos dilysrwydd ar sail y dystiolaeth
Rhoi	llunio ateb o'ch cof
Trafod	cyflwyno pwyntiau allweddol
Ymchwilio	edrych yn fanwl heb fod â rhagdybiaethau am y canlyniad
Ystyried	adolygu ac ymateb i wybodaeth a roddwyd

Atodiad 7: Hyrwyddo arfer da

Mae asesu'r effaith ar gydraddoldeb drwy gydol y broses o gynllunio cymhwyster (gan gynnwys camau cynnar y broses o ddatblygu cymwysterau, cynllunio'r asesiadau ac yn y trefniadau ar gyfer asesu yn y ganolfan) yn helpu i ymgorffori tegwch a lleihau'r angen am addasiadau ar ôl cymeradwyo'r cymwysterau.

Dylid nodi mynediad a rhwystrau ar gam drafftio cychwynnol, a hynny ar gyfer strwythur/cynnwys y cymhwyster a'r fethodoleg asesu. Bydd cynnwys arbenigwyr datblygu cymwysterau ac arbenigwyr cydraddoldeb ar gam cynnar yn ystod y broses ddatblygu yn helpu i gynllunio cymwysterau mewn ffordd sy'n dileu'r angen am addasiadau, neu'n eu lleihau cymaint â phosibl. Mae'n anoddach gwneud newidiadau sylweddol ar ôl i'r fanyleb a'r asesiadau sampl gael eu llunio.

Ystyriaethau ar gyfer cynllunio cymwysterau ac asesiadau cyn dewis cyfrwng asesu

- Ystyriwch holl ddibenion asesiad.
- A yw'r ystyriaethau dilysrwydd yr un peth i bob dysgwr?
- Gall e-asesu fod yn fesur mynediad neu'n ddull de facto, neu'r ddau.
- Os mai e-asesu yw'r dull asesu de facto, mae'n bosibl y bydd y mesur mynediad yn seiliedig ar bapur neu'n ymwneud ag ymyrraeth gan berson.

Mae llawer o systemau e-asesu yn cynnwys cefnogaeth fewnol ar gyfer mynediad erbyn hyn. Mae gwaith cynllunio da sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn cefnogi mynediad gan bob dysgwr, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- llywio clir
- ffurfiau mewnbynnu amgen
- troslais/cymhorthion clywedol
- golwg a nodweddion y gellir eu haddasu gan y defnyddiwr, e.e. opsiynau o ran maint y ffont, lliw'r ffont a lliw'r cefndir.

Mae mynediad delfrydol yn adlewyrchu 'arferion gwaith arferol', ac mae'n cynnwys y canlynol:

- ‘dod â'ch dyfais eich hun’ (BYOD) ar gyfer diogelwch a chydweddoldeb
- rhaglenni cynorthwyol (e.e. darllenwyr sgrin)
- dyfeisiau cynorthwyol (e.e. sgrin gyffyrddol, darllennydd Braille).

Fodd bynnag, gall cynllunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr roi baich ar y corff dyfarnu, y ganolfan a'r darparwr technoleg, ac mae'n gofyn am (fynediad i) ddeunydd ymarfer sy'n gweithredu yn yr un ffordd â'r asesiad ei hun.

Mae angen i gyrff dyfarnu fod yn hyderus bod eu dulliau asesu, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn rhydd rhag tuedd (cosbi annheg nad yw'n deillio o sgoriau sy'n wahanol oherwydd gwahaniaethau mewn gallu).

Atodiad 8: Cyfeiriadau a llyfryddiaeth

BATOD, (2011) Language of Examinations: 2il argraffiad 2003: diweddarwyd Hydref 2011

Ball, S. (2006), Accessibility in e-Assessment Guidelines: Final Report
https://dspace.lboro.ac.uk/dspace-jspui/bitstream/2134/4442/1/Ball%20S%20c2_formatted%20%282%29.pdf

Y Sefydliad Safonau Prydeinig, adnoddau
http://shop.bsigroup.com/

CCEA, Amodau Cydnabod Cyffredinol ar gyfer Gogledd Iwerddon
http://ccea.org.uk/regulation/compliance/general_conditions_recognition

Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau, Adjustments for learners with disabilities and learning difficulties: Access Arrangements and Reasonable Adjustments: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol
www.jcq.org.uk/examsoffice/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-andguidance/access-arrangements-and-reasonable-adjustments-2014-2015

Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau, Access Arrangements and Special Consideration,
www.jcq.org.uk/examination-system/access-arrangements-and-specialconsideration

National Sensory Impairment Partnership (NatSIP), canllawiau ar arholiadau a mynediad
www.natsip.org.uk/exams-and-access

Ofqual, (2011), Guidance on the Principles of Language Accessibility in National Curriculum Assessments: Referring to the Regulatory Arrangements for National Assessments: National Curriculum and Early Years Foundation Stage
https://dera.ioe.ac.uk/15879/1/2012-10-12-guidance-principles-of-language-accessibility-in-ncas.pdf_dm_i%3DBTP%2C11764%2C3O1B94%2C35WJY%2C1

Cymwysterau Cymru, Amodau Cydnabod Safonol
(Cymraeg)
https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/
(Saesneg)

https://qualificationswales.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

RNIB, (n.d.) Access to exams and tests
www.rnib.org.uk/services-we-offer-advice-professionals-educationprofessionals/access-exams-and-tests

RNIB, (2007) See it Right: making information accessible for people with sight problems, Ail argraffiad diwygiedig

UKAAF, (2018) UKAAF guidance General and Vocational Examinations for Candidates with Visual Impairment: Best Practice Guidance for Modifiers and Producers
www.ukaaf.org/exams-modification-best-practice

Llywodraeth Cymru, (2018) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft*
https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-12/draft-additional-learning-needs-code-for-wales_0.pdf

Deddfwriaeth

Deddf Cydraddoldeb 2010
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/contents

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Cymru) (Cymraeg)
https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru
(Saesneg)
https://gov.wales/additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-act

Atodiad 9: Manylion cyswllt rheoleiddwyr

Cymru

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Imperial Park,
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR
01633 373 222
www.cymwysteraucymru.org
ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Gogledd Iwerddon

Council for the Curriculum, Examinations and Assessment (CCEA)
29 Clarendon Road
Clarendon Dock
Belfast
BT1 3BG
Ffôn: 028 9026 1200
e-bost: info@ccea.org.uk
www.ccea.org.uk/regulation

Ar gyfer cymwysterau yn Lloegr

Ofqual
Earlsdon Park
53-55 Butts Road
Coventry
CV1 3BH
e-bost: info@ofqual.gov.uk
www.ofqual.gov.uk

Ar gyfer cymwysterau yn yr Alban

Scottish Qualifications Authority (SQA)
The Optima Building
58 Robertson Street
Glasgow G2 8DQ
e-bost: customer@sqa.org.uk
www.sqa.org.uk/sqa

Cydnabyddiaethau

Mae Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation yn cydnabod gwaith y grwpiau llywio prosiect gwreiddiol, aelodau'r Grŵp Mynediad i Asesiadau a Chynghori ar Gymwysterau ac eraill sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau hyn. Diolchwn iddynt.

Mae fersiwn 2015 wedi elwa ar gyfraniadau ychwanegol gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol.

- AlphaPlus Consultancy: Kath Fanning, John Hamer, Gillian Whitehouse, John Winkley
- British Association of Teachers of the Deaf (BATOD): Maureen Jefferson, Paul Simpson
- e-Assessment Association: Gavin Busuttil-Reynaud
- Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB): Judith Archer
- Y Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ): Nick Lait (JCQ), Sue Barnbrook (AQA), Nikki Polydorou (OCR) a Tudor Thomas (CBAC)
- Sefydliad Brenhinol Pobl Ddall (RNIB): Rory Cobb
- Jisc: Alistair McNaught

Mae fersiwn 2018 wedi elwa ar gyfraniadau ychwanegol gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol:

- Cymdeithas Dyslecsia Prydain: Abi James
- Colour Blind Awareness: Kathryn Albany-Ward
- Jisc: Alistair McNaught
- UKAAF: Sharon Williams
- Cymdeithas Genedlaetol Plant Byddar Cymru: Jayne Dulson

Adeilad Q2,
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373222

29 Clarendon Road,
Clarendon Dock,
Belfast
BT1 3BG
☎ 02890 261200

© 2019 Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation